# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 18 IONAWR, 2024 am 10.00 o'r gloch yb** | **THURSDAY, 18 JANUARY, 2024 at 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-
**<u>Y Grwp Annibynnol / The Independent Group</u>**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**<u>Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents</u>**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**<u>Llafur Cymru/Welsh Labour</u>**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mrs Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney ((Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2023;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2023.

**4 MODERNEIDDIO CYFLEON DYDD : ANABLEDDAU DYSGU (ARDAL CAERGYBI)** (Tudalennau 17 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**5 ADRODDIAD CYNNYDD CH2 : 2023/2024 - BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 45 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2023/2024** (Tudalennau 81 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## ›fnodion y cyfarfod arbennig hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John I Jones ac Euryn Morris<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Newid Hinsawdd)<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio ar gyfer Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;<br>Y Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diogelwch Cymunedol;<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg;<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid.<br><br>Mr Dyfed Edwards – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;<br>Mrs Ffion Johnson – Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |

---

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Mrs Ffion Johnson, Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Cyflwynwyd adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad partner mwyaf y mae'r Awdurdod yn gweithio ag o er mwyn helpu pobl fregus a darparu'r gwasanaethau a'r gofal gorau ar gyfer trigolion yr Ynys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu cyfnod heriol yn ystod y chwe mis diwethaf yn sgil cael ei roi o dan fesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n cael ei gydnabod. Er hynny, cydnabyddir hefyd fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o fewn y Bwrdd Iechyd a'r gobaith yw y bydd y cynnydd yn parhau. Ychwanegodd fod y Cyngor yn ffodus fod ganddo ddau unigolyn sy'n aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sef y Cynghorydd Dyfed W Jones, sydd yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, a Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd yn Aelod Cysylltiol.

Dywedodd Mr Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fod gosod y Bwrdd Iechyd cyfan o dan fesurau arbennig, fel y gwnaeth Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023, yn beth anghyffredin a digwyddodd hynny am fod nifer o bryderon am y ddarpariaeth, perfformiad sefydliadol a llywodraethiant. Cyfeiriodd at aelodaeth a strwythur y bwrdd a'r gobaith yw penodi rhagor o gynrychiolwyr i'r Bwrdd maes o law. Ychwanegodd Mr Edwards fod y Bwrdd Iechyd wedi wynebu cyfnod heriol yn ystod y ddegawd ddiwethaf a gwelwyd nifer o Brif Weithredwyr yn cael eu penodi ac yna'n gadael eu swyddi. Dywedodd fod profiadau pobl sy'n derbyn gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn cael ei fonitro a derbyniwyd sylwadau a oedd yn canmol y gwasanaeth iechyd ar ôl i gleifion gael eu gweld ac wedi iddynt dderbyn triniaeth, ond mae heriau'n bodoli o hyd o ran derbyn apwyntiadau a gwasanaethau yn y lle cyntaf.

Dywedodd Mr Edwards mai ei nod fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, a nod y Prif Weithredwr, yw gwella'r gwasanaethau a ddarperir a rhoi'r gefnogaeth iechyd a llesiant orau i'r bobl sy'n cael eu gwasanaethu gan y Bwrdd Iechyd. Dywedodd fod angen i'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu mwy gyda chymunedau lleol a bod angen iddo ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y cymunedau yma a bydd nifer o gyfarfodydd

ymgynghori'n cael eu cynnal i ganfod beth yw barn pobl am y Bwrdd Iechyd. Ychwanegodd fod ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol yn holl bwysig er mwyn cynnig y gwasanaethau gorau posib i'r bobl sy'n cael eu gwasanaethu gan y Bwrdd Iechyd.

Ychwanegodd Mr Edwards fod y Bwrdd Iechyd yn gyflogwr mawr a'i fod yn cyflogi bron i 20,000 o weithwyr ledled y rhanbarth ac mae effaith economaidd-gymdeithasol y Bwrdd yn bellgyrhaeddol.

Dywedodd Mrs Ffion Johnson, Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fod perthynas waith dda'n parhau i fodoli rhwng yr Awdurdod hwn a'r Bwrdd Iechyd.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol:-

- Nodwyd fod taith wella'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys y 5 amcan allweddol a nodir yn yr adroddiad. Gofynnwyd pa heriau neu risgiau sy'n effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i wireddu ei daith wella? Dywedodd Mr Dyfed Edwards fod yr adroddiad yn cynnwys 5 canlyniad allweddol a chyfeiriodd yn benodol at ddiwylliant y Bwrdd Iechyd o ran ei allu i ddarparu'r gwasanaethau a'r gofal iechyd gorau i gleifion. Fodd bynnag, dywedodd fod diwylliant y Bwrdd Iechyd yn hynod o fregus gan fod staff yn teimlo dan bwysau oherwydd bod yr oriau gwaith yn hir a bod arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn newid yn barhaus; roedd o'r farn bod angen i bobl fod yn fwy ystyriol o'i gilydd ac i fod yn fodlon gwrando ar anghenion cleifion. Dywedodd Mr Edwards hefyd fod creu sefydliad sy'n cyrraedd y safonau yn holl bwysig. Cyfeiriodd Mrs Ffion Johnson at yr heriau a wynebir o ran penodi staff meddygol ac roedd yn credu y byddai'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor yn rhoi cyfle i bobl ifanc astudio ac, o bosib, gweithio fel staff meddygol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y dyfodol. Nododd fod Cynorthwywyr Gofal Iechyd sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd yn cael cyfle i fynychu cyrsiau ym Mhrifysgolion Bangor ac Aberystwyth er mwyn dod yn nyrsys cofrestredig. Gofynnwyd a fyddai'r 'cylchoedd gwella 90 diwrnod' yn gysylltiedig â'r 5 amcan allweddol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn rhoi pwysau ar y Bwrdd Iechyd? Mewn ymateb, dywedodd Mr Dyfed Edwards fod y Bwrdd Iechyd ar y 'cam sefydlogi' ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd wedi pwysleisio wrth Lywodraeth Cymru bod angen hyblygrwydd gan y bydd angen mwy o amser i wella rhai agweddau yn y Bwrdd Iechyd. Dywedodd, er enghraifft, fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiadau ar feysydd penodol yn y Bwrdd Iechyd ac, fel rhan o'r rhaglen mesurau arbennig, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn gweithredu ar y meysydd penodol hyn.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu ac yn dysgu o enghreifftiau o arfer dda mewn ardaloedd eraill er mwyn gwella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig tebyg i Ynys Môn? Dywedodd Mrs Ffion Johnson fod enghreifftiau o arfer dda yn cael eu rhannu mewn ardaloedd gwledig a chydag ardaloedd yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn edrych ar fodel gofal brys ac argyfwng a'r gobaith yw y gellir dysgu arferion da o'r model hwn.
- Nodwyd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i geisiadau cynllunio fel ymgynghorai statudol. Nodwyd y gallai datblygiad mewn cymunedau lleol gael

effaith negyddol ar wasanaethau meddygon teulu yn y cymunedau hyn. Dywedodd Mr Dyfed Edwards y bydd angen rhoi trefniadau ar waith i'r Bwrdd Iechyd ymateb i geisiadau cynllunio sy'n cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth iechyd mewn cymunedau lleol. Nododd y dylai'r Bwrdd Iechyd hefyd gael eu cynnwys mewn trafodaethau wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Bwrdd Iechyd yn bartner statudol yn y broses o greu'r Cynllun Datblygu Lleol. Nododd y gall datblygu datblygiadau tai mewn ardal wledig gael effaith sylweddol ar wasanaethau yn y gymuned honno, a'r ddarpariaeth gofal iechyd yn arbennig.

- Gofynnwyd beth yw'r bwriadau o ran datblygu'r cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ymhellach? Dywedodd Mrs Ffion Johnson fod nifer o brosiectau ar y cyd wedi cael eu sefydlu gydag adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. Cyfeiriodd at enghreifftiau o gydweithio megis y tri Thîm Adnoddau Cymunedol, Timau Amlddisgyblaethol, Pecynnau Gofal a'r defnydd posib o Gartref Preswyl Garreglwyd yng Nghaergybi. Nododd fod cynllun peilot Hwb Cymunedol a sefydlwyd yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi yn canolbwyntio ar leihau nifer y cleifion risg uchel sy'n gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod perthynas waith dda'n bodoli rhwng gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd a chynhelir trafodaethau rheolaidd i benderfynu sut i wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion Ynys Môn.
- Cyfeiriwyd at y cynllun Cymunedau Oed Gyfeillgar sy'n cynnal cyfarfodydd mewn nifer o bentrefi ar Ynys Môn. Yn ystod y cyfarfodydd hyn mynegwyd pryderon am gyfleusterau cludiant i ysbytai a nodwyd bod pobl yn gorfod disgwyl am amser hir i gael cludiant gartref yn dilyn apwyntiadau ysbyty, a chyfeiriwyd hefyd at y gofyn am gyfleusterau gofal cynradd ychwanegol mewn cymunedau lleol. Ymatebodd Mrs Ffion Johnson i'r materion a godwyd a nododd fod gofal acíwt arbenigol yn cael ei ddarparu yn y prif ysbytai ar hyn o bryd ac y dylid ystyried ail-leoli Nyrsys Arbenigol i'r gymuned. Nododd y byddai'n codi'r materion a godwyd gyda Dr Dyfrig ap Dafydd, sef Arweinydd y Clwstwr ar Ynys Môn.
- Nodwyd fod heriau'n bodoli o ran recriwtio gweithwyr ym maes Orthodonteg yn y Gorllewin. Gofynnwyd sut mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r heriau recriwtio ym maes Orthodonteg? Dywedodd Mrs Ffion Johnson fod yr Orthodeintydd ym Mangor wedi ymddeol a'i bod yn anodd llenwi'r swydd. Dywedodd fod trafodaethau ynglŷn â'r ddarpariaeth Orthodonteg yn mynd rhagddynt ledled Gogledd Cymru. Nododd fod trafodaethau wedi digwydd gyda'r Academi Ddeintyddol ym Mangor a chysylltwyd â'r gwasanaeth Orthodonteg yn ardaloedd canol a dwyrain Gogledd Cymru i ganfod a fyddent yn fodlon cynnal y clinig ym Mangor neu a fyddai cleifion yn fodlon teithio i ardaloedd eraill. Nododd y Pwyllgor hefyd fod meddygfeydd deintyddol yn cau ar yr Ynys a dim ond 7 sydd ar ôl bellach. Dywedodd Mrs Ffion Johnson fod yna ddiffyg meddygfeydd deintyddol ledled Gogledd Cymru. Mae'r Academi Ddeintyddol yng Ngogledd Cymru'n darparu rhaglenni addysgu deintyddol ar gyfer myfyrwyr. Nododd fod trafodaethau wedi digwydd gyda Deintyddion y GIG ar yr Ynys i weld a fyddai modd addasu contractau'r GIG o gwbl, ond mater i Lywodraeth Cymru yw p'un a ellir addasu eu contractau.
- Gofynnwyd pa ffrydiau gwaith sydd ar waith i gryfhau llais pobl leol ac i sicrhau fod y Bwrdd Iechyd yn cael ei ddal i gyfrif gan bobl a chymunedau'r Ynys a

Gogledd Cymru? Mewn ymateb, dywedodd Mr Dyfed Edwards fod aelodau annibynnol ar y Bwrdd Iechyd sy'n cynrychioli gwahanol ddiddordebau cymunedol. Mae gan 'Llais', sef yr hen Gyngor Iechyd Cymunedol, gynrychiolydd ar y Bwrdd. Dywedodd Mr Edwards ei fod ef, fel Cadeirydd y Bwrdd, yn awyddus i ddenu cynrychiolwyr cymunedau lleol ac aelodau etholedig i'r Bwrdd Iechyd. Nododd fod cyfres o gyfarfodydd wedi eu trefnu mewn cymunedau lleol ar hyd a lled Gogledd Cymru a bydd cyfle i bobl fynegi eu barn am wasanaethau'r gwasanaeth iechyd a chyfle i awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o'r trydydd sector gyfarfod â'r Bwrdd Iechyd i leisio eu pryderon. Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â phreswylwyr. Dywedodd Mr Edwards y byddai ef, fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yn rhoi mwy o ystyriaeth i sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â phreswylwyr ac y byddai'n fanteisiol edrych ar sut mae'r Cyngor hwn yn ymgysylltu â phreswylwyr.

- Gofynnwyd a yw'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar y Bwrdd Iechyd. Mewn ymateb, dywedodd Mr Edwards fod cyfuniad o faterion wedi effeithio ar iechyd ac ar iechyd meddwl pobl yn sgil yr argyfwng costau byw, newid hinsawdd a'r cyfnod yn dilyn covid. Nododd fod ansawdd bywyd pobl yn effeithio ar eu hiechyd. Mae enghreifftiau mewn cymunedau lleol o geisio dod â phobl ynghyd i gymdeithasu a chael pryd poeth. Ceir 'lleoedd cynnes' ar hyd a lled Gogledd Cymru sy'n cael eu darparu gan y trydydd sector a grwpiau cymunedol. Serch hynny, mae adnoddau a'r angen am wirfoddolwyr yn risg o ran cynnal darpariaeth o'r fath.
- Nodwyd fod pobl yn cysylltu ag Aelodau Etholedig i fynegi eu pryderon am faterion iechyd e.e. methu â chael apwyntiad gyda meddyg teulu, diffyg deintyddion neu orfod disgwyl am apwyntiadau ysbyty. Gofynnwyd sut all Aelod Lleol gysylltu â'r Bwrdd Iechyd i godi'r pryderon hyn. Dywedodd Mr Dyfed Edwards ei fod ef, fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yn fodlon rhoi sylw i unrhyw bryderon yn y lle cyntaf. Dywedodd y byddai'n rhaid ystyried sefydlu cyswllt penodol o fewn y Bwrdd Iechyd er mwyn i Aelodau Lleol fedru mynegi pryderon eu hetholwyr.
- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at gofnodion meddygol a data allweddol cleifion. Gofynnwyd pa drefniadau sydd ar waith i ymateb i sylwadau diweddar gan y Crwner mewn perthynas â chofnodion atgyfeirio claf a oedd wedi mynd ar goll. Dywedodd Mr Dyfed Edwards nad oedd ymateb y Bwrdd Iechyd i achosion o'r fath yn dderbyniol a'i fod yntau, fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, a'r Prif Weithredwr Dros Dro wedi cytuno bod angen iddynt fynd i'r afael ag achosion o'r fath ac mae'n rhaid gosod safonau a cheisio adfer ymddiriedaeth pobl yn y Bwrdd Iechyd.

Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn dymuno diolch i Mr Dyfed Edwards a Mrs Ffion Johnson am ddod i'r cyfarfod a nododd fod gwaith partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn holl bwysig i gefnogi iechyd a gofal trigolion yr Ynys.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;**

- **Gwahodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno diweddariad pellach ynglŷn â chynnydd i'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ymhen 12 mis.**

**GWEITHREDOEDD :-**

- **Gwella trefniadau i Aelodau Etholedig gyflwyno pryderon eu hetholwyr i'r Bwrdd Iechyd;**
- **Mae angen person cyswllt yn y Bwrdd Iechyd i ymateb i'r broses ymgynghori statudol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio pan fydd cynigion am ddatblygiadau tai mawr yn effeithio ar y ddarpariaeth iechyd mewn cymunedau gwledig.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff (ar gyfer Eitem 4) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Democratiaeth (DS),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitem 6 yn unig),<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (eitem 4 yn unig),<br>Rheolwr Strategaeth Gwasanaeth a Busnes (GP) (eitem 4 yn unig),<br>Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (eitem 5 yn unig),<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ) (eitem 6 yn unig),<br>Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro (EM) (eitem 6 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Ifan Jones a Derek Owen.<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai.<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol.<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid |

1 **YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

2 **DATGAN DIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn Eitem 5 – Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028.

3 **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2023 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn eitem 4 – Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol : 2022/2023, bod y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi bod angen rhoi cynllun penodol ar waith ar gyfer yr Ynys oherwydd ystyriaethau'n ymwneud â chadernid y ddwy bont pe bai digwyddiad mawr yn digwydd.

4 **CYNLLUN STRATEGOL ADNODDAU AC AILGYLCHU - 2023-2028**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028 yn cefnogi prif uchelgeisiau'r Cyngor yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi bod angen i'r Cyngor gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2028 a chyrraedd y targed o allyriadau carbon sero-net erbyn 2030. Nododd fod dyletswydd ar bob preswylydd a thwristiaid i leihau gwastraff a chynyddu cyfraddau ailgylchu. Mae gan y Cyngor berthynas waith dda gyda sefydliadau partner o fewn CLlLC, Llywodraeth Cymru ac WRAP Cymru i helpu i gyrraedd y cyfraddau targed hyn o ailgylchu o 70%. Ar hyn o bryd y cyfraddau ailgylchu presennol ar Ynys Môn yw 64% (gall amrywio yn ystod gwahanol gyfnodau o fewn y flwyddyn). Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at yr ymgynghoriad cyhoeddus diwethaf a gynhaliwyd am chwe wythnos rhwng 11 Medi a 20 Hydref, 2023. Cynlluniwyd yr ymgynghoriad i gasglu adborth ar y ffrydiau gwaith allweddol i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o wastraff cartref. Cafwyd ymateb gan bron i 200 i'r broses ymgynghori (tynnwyd sylw at yr ymateb a dderbyniwyd yn y ddogfen ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r adroddiad). Dywedodd ymhellach fod cyfeiriad wedi'i wneud nad yw'r blwch ailgylchu i ddal cardbord yn ddigonol a bod angen ystyried ffyrdd eraill o gasglu cardbord h.y. rhoi sachau ar gyfer cardbord ychwanegol. Nododd ymhellach fod angen ail-addysgu pobl am bwysigrwydd ailgylchu ac yn enwedig y genhedlaeth iau .

Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff mai'r prif flaenoriaethau strategol yw lleihau gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau tipio anghyfreithlon, gwella lefel glanhau strydoedd ynghyd â gwella cyfraddau ailgylchu a gwastraff o fewn adeiladau'r Cyngor. Nododd hefyd, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas ar

gyfer y dyfodol, y bydd angen fflyd effeithlon o gerbydau allyriadau isel iawn - bydd angen eu trosglwyddo o gerbydau disel i gerbydau trydan i gasglu gwastraff ac ailgylchu ynghyd â'r peiriannau o fewn y safle ailgylchu yng Ngwalchmai a Phenhesgyn yn y dyfodol. Dywedodd ymhellach fod y broses ymgynghori yn cefnogi'r angen i gynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau'r gwastraff bin du.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol::-

- Cyfeiriwyd at amcanion y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu gan ddweud ei fod yn uchelgeisiol. Codwyd cwestiynau ynghylch beth arall y gall y Cyngor ei wneud i gyflawni'r gyfradd ailgylchu statudol o 70% erbyn 2020. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod y gyfradd ailgylchu o 70% yng Nghymru yn uchel a bod trigolion yr Ynys eisoes wedi gallu cyflawni lefel ailgylchu o 64%. Nododd y bydd angen edrych ar ffyrdd eraill o ailgylchu gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ailgylchu ac ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod popeth y gellir ei ailgylchu yn cael ei ailgylchu. Mae dadansoddiad wedi'i wneud o gynnwys gwastraff y bin du ac mae deunyddiau y gellir eu hailgylchu o hyd o fewn y biniau du.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a yw targed carbon sero-net 2030 Llywodraeth Cymru yn uchelgeisiol o ystyried yr economi ariannol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod Cynllun Strategol Cymru hefyd yn nodi bod y rheswm dros ailgylchu yn bwysig fel bod targedau carbon sero-net yn cael eu cyrraedd a bydd angen ymchwilio i sut mae'r deunydd ailgylchadwy yn cael ei gasglu gyda'r angen am gerbydau trydan a hydrogen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae cerbydau hydrogen yn cael eu datblygu gan ei fod yn rhan o dechnoleg newydd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi ymrwymo i gyrraedd y targedau carbon sero-net erbyn 2030. Fodd bynnag, bydd cyrraedd y targed yn dibynnu ar adnoddau ariannol. Cyfeiriodd at y 3 elfen yn y Cynllun Strategol h.y. mae angen datgarboneiddio adeiladau'r Cyngor os oes adnoddau ariannol ar gael, ond roedd o'r farn bod gan yr Awdurdod sawl adeilad hanesyddol y mae angen ystyried eu defnyddio yn y dyfodol. Mae angen ymchwilio i gynllun y fflyd ond mae hynny eto yn dibynnu ar adnoddau cyfalaf. Byddai proses dendro Cymru gyfan yn lleddfu baich costau awdurdodau lleol. Bydd angen ymchwilio hefyd i fesurau caffael i sicrhau bod sefydliadau partner yn y sector preifat wedi ymrwymo i fod yn garbon sero-net.
- Cyfeiriwyd at yr ymateb i'r broses ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu. Codwyd cwestiynau ynghylch y ganran a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad ac a oedd y ffaith mai dim ond 22% a ymatebodd yn cael ei ystyried yn ganran siomedig. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod y broses ymgynghori wedi'i chynnal trwy wefan y Cyngor a'i hyrwyddo drwy'r sianeli cyfryngau cymdeithasol. Fe'i rhannwyd hefyd ymhlith fforymau cymunedol heneiddio'n dda Ynys Môn. Dywedwyd ymhellach fod chwarter yr ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaeth yn wael/gwael iawn. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Strategaeth Gwasanaeth a Busnes fod 75 o ymatebwyr wedi dweud bod y 'blychau troli ailgylchu' yn hawdd eu torri, nad oedd digon o le yn y blychau ar gyfer cardbord a phlastigion, bod sbwriel ar y strydoedd yn sgil casglu'r deunyddiau ailgylchu a

bod pobl yn ansicr beth y gallant ei ailgylchu. Nododd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda WRAP Cymru i adolygu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

- Cyfeiriwyd yn ystod y broses ymgynghori at yr angen am focs gyda mwy o le ynddo i gasglu cardbord. Codwyd cwestiynau ynghylch y ffaith na fu sôn am faint annigonol y bin bwyd brown gan y gellid arbed gwastraff bwyd rhag gorfod cael ei waredu i safleoedd tirlenwi gan gyfrannu at gynyddu allyriadau carbon. Gwnaed sylwadau pellach fod nifer y biniau bwyd brown a oedd yn cael eu rhoi allan i'w casglu yn isel. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod dadansoddiad wedi'i wneud i wastraff bwyd mewn biniau du. Er y cydnabyddir y dylid osgoi gwastraff bwyd, mae angen i'r Awdurdod ganolbwyntio ar wahanol ffyrdd o gasglu gwastraff bwyd. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Dudalen 10 o'r blaenoriaethau strategol sy'n canolbwyntio ar y ffordd ymlaen o ran ailgylchu a gwaredu gwastraff. Nododd fod y Cynllun Strategol yn adnodd corfforaethol ar draws gwasanaethau'r Cyngor o ran addysgu a chyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch yr angen i ailgylchu a lleihau gwastraff. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod angen cynnal dadansoddiad pellach ar y mater hwn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gellir casglu gwastraff ychwanegol drwy gael mwy o finiau casglu ar strydoedd. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod dros 600 o finiau casglu ar strydoedd ar yr Ynys; mae 15 bin sydd â chyfleusterau ailgylchu ar gyfer gwahanu gwastraff. Nododd fod safon yr ailgylchu o fewn y biniau hyn yn wael oherwydd halogiad sy'n arwain at anawsterau ailgylchu. Er bod rheoli'r cyfleusterau hyn yn her, mae angen gosod cyfleusterau ychwanegol mewn ardaloedd pellach ar yr Ynys dros y blynyddoedd nesaf. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid gosod rhagor o finiau casglu ar gyfer ailgylchu ar strydoedd, yn enwedig yng nghanol trefi ac ardaloedd arfordirol. At hynny, dywedodd fod cysylltiad hefyd rhwng y Cynllun Cyrchfan a Chynllun AHNE yr Awdurdod.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa risgiau a nodwyd a allai effeithio ar gyflawni'r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff mai'r prif risg i'r Cynllun Strategol yw adnoddau cyfalaf a bod newidiadau mawr o'n blaenau oherwydd bod angen newid y fflyd i gerbydau trydan/hydrogen, newid y biniau a'r gwasanaethau a ddarperir a chynnal y gwasanaethau presennol. Dywedodd ymhellach fod risgiau i unrhyw newidiadau a allai ddigwydd i ddeddfwriaeth ac y gellid wynebu dirwyon os na chyrhaeddir targedau. Mae'r deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu ar hyn o bryd yn cael eu gwerthu i gynhyrchu incwm i ariannu'r gwasanaeth ond gall y farchnad ar gyfer deunyddiau o'r fath amrywio. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch y goblygiadau ariannol i'r Cyngor yn sgil gweithredu'r Cynllun Strategol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddfog Rheoli Gwastraff bod goblygiadau ariannol cyfalaf enfawr fel y nodwyd o'r blaen ac mae angen buddsoddi adnoddau ariannol yn y seilwaith a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i Reoliadau Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes goblygiadau o ran costau os nad yw'r deunyddiau ailgylchu yn cael eu golchi a ph'un ai a yw'n ddiwerth. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod mwyafrif y preswylwyr yn cydymffurfio â'r gofyniad i olchi eu deunyddiau ailgylchu ond os yw safon yr ailgylchu yn wael yna mae gwerth yr ailgylchu yn lleihau. Gwnaed sylwadau pellach ei bod yn ymddangos bod cynnydd mewn cyfleusterau 'tec-awe' yng

nghanol trefi.  Codwyd cwestiynau ynghylch a ellir gosod amod cynllunio bod angen darparu bin gwastraff ynghlwm wrth unrhyw gais cynllunio a gymeradwyir ar gyfer siopau 'tec-awe'.  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff y byddai'n croesawu amod o'r fath ar fusnes ‘tec-awe’, fodd bynnag, byddai angen gwahanu'r gwastraff pecynnu hefyd i'r blychau ailgylchu cywir.

- Cyfeiriwyd o fewn y Cynllun Strategol at y ffaith bod angen mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.  Codwyd cwestiynau fel sut y gellir mynd i'r afael â hyn ar draws yr Ynys a faint sydd wedi cael eu herlyn am achosion o dipio anghyfreithlon y llynedd.  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff nad oedd unrhyw achos o erlyniad am dipio anghyfreithlon ar yr Ynys y llynedd.  Nododd fod nifer yr erlyniadau am achosion o dipio anghyfreithlon mewn unrhyw awdurdod lleol drwy’r llys yn isel gan fod angen adnoddau i orfodi gorfodaeth ac i sicrhau tystiolaeth ac erlyn achosion o dipio anghyfreithlon.   Fodd bynnag, mae angen mesurau gorfodi i leihau tipio anghyfreithlon gan ei fod yn cael effaith negyddol ar drefi a chymunedau ac mae angen cyfleu bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol. Dywedodd y Rheolwr Strategaeth Gwasanaeth a Busnes eu bod ar hyn o bryd yn ystyried cynyddu'r gosb ariannol am dipio anghyfreithlon sydd ar hyn o bryd yn £75 o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru sy'n codi rhwng £200 a £400. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a ellid lleoli cyfleuster ailgylchu yng Nghaergybi gan ei bod yn ymddangos bod tipio anghyfreithlon yn uwch yn yr ardal hon. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff nad oes safleoedd ychwanegol wedi'u cynllunio ar Ynys Môn ar hyn o bryd.  Dywedodd y Prif Weithredwr nad oes gan rai pobl y modd i fynd â'u deunyddiau ailgylchu i'r ganolfan ailgylchu.  Nododd fod 'sgipiau cymunedol' wedi bod yn boblogaidd am sawl blwyddyn yn y cymunedau.  Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliad partner Cadwch Gymru'n Daclus mewn ardaloedd arfordirol ac mae gwirfoddolwyr yn helpu i glirio gwastraff.  Dywedodd y gallai gwahanol agweddau ar gyfleusterau ailgylchu gael eu trafod o dan y Cynllun Ffyniant a Rennir.

- **PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028;**
- **Argymell i’r Cyngor fabwysiadu’r Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2023-2028.**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **Bod y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn cynnwys y cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu bwyd fel camau penodol;**
- **Bod angen ystyried, pan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ar gyfer siopau bwyd cyflym, bod angen darparu bin gwaredu gwastraff;**
- **Nodi bod ailgylchu a gwastraff yn gyfrifoldeb corfforaethol ar draws nifer o Wasanaethau'r Cyngor ac y dylid cynnal ymgyrchoedd Cadwch Ynys Môn yn Daclus i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd ailgylchu;**

- **Mae ailgylchu gwastraff biniau yn ein trefi a'n cymunedau arfordirol yn agwedd sydd angen sylw pellach ac mae'n fater sy'n gysylltiedig â chynlluniau strategol eraill megis y Cynllun Rheoli Cyrchfan, Cynllun Rheoli AHNE.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2022/2023

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, yn absenoldeb yr Aelod Portffolio fod yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfle i weld yr ystadegau a'r heriau gan fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddiogelwch cymunedol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol::-

- Codwyd cwestiynau i ba raddau y mae'r Pwyllgor yn cytuno â blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol, ac a oes materion eraill y mae angen eu blaenoriaethu. Codwyd cwestiynau pellach wrth i'r adroddiad gyfeirio at y newidiadau mewn adrodd ac o ran sut mae'n bosibl cael darlun cywir o unrhyw welliant neu ddirywiad mewn cymunedau unigol. Mewn ymateb, dywedodd Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn fod blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn o fewn y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar strategaeth ranbarthol gan Fwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Ffocws y Bwrdd yw sicrhau bod Gwynedd a Môn yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef . Mae Strategaeth y Bartneriaeth hefyd yn cael ei dylanwadu gan Asesiad Strategol yr Heddlu ac mae'n adrodd ar y materion troseddol yn yr ardal. Mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith o flaenoriaethau ar gyfer yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Nododd fod y newidiadau i'r broses gofnodi wedi eu hamlygu yn yr adroddiad a bydd gan yr Heddlu gyfnod estynedig i flaenoriaethu dioddefwyr troseddau heb orfod dyblygu cofnodion. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gofnodi ar draws y DU sy'n fwy cywir na'r system flaenorol. Nododd ymhellach fod Gogledd Cymru mewn lle cadarnhaol o ran lleihau troseddau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa ffyrdd y mae'r bartneriaeth statudol yn ychwanegu gwerth ac yn gweithio mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 fod dyletswydd ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i weithio'n agos gyda'i sefydliadau partner i sicrhau mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth. Nododd fod gwahanol feysydd gwaith yn cael eu gwneud gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac mae'r awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr, fel Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, fod gwaith yn cael ei wneud ar broses strategol i godi ymwybyddiaeth o wahanol faterion pryder na fyddent fel arall wedi bod yn ymwybodol ohonynt, a bod modd gweithredu'n bwrpasol a gwella'r modd yr ymdrinnir â materion trosedd a allai godi. Cyfeiriwyd ymhellach gan y Pwyllgor ei fod yn nodi yn yr adroddiad nad

yw'r Swyddfa Gartref yn cydnabod ymddygiad gwrthgymdeithasol fel trosedd, ond mae Awdurdod yr Heddlu yn cydnabod bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn drosedd. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ei bod yn deall nad yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei gofnodi fesul achos ond ei fod yn cael ei gofnodi ar sail faint o alwadau sy'n cael eu derbyn gan Ystafell Reoli'r Heddlu. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei fod yn bwriadu gwahodd yr Heddwas sy'n mynychu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'r cyfarfod hwn wrth drafod yr Adroddiad Blynyddol yn y Pwyllgor hwn maes o law.

- Cyfeiriwyd at y cynnydd yr adroddwyd amdano mewn dwyn o siopau yn y cyfryngau yn ddiweddar ac mae manwerthwyr yn cwyno nad yw'r Heddlu yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiadau’n ymwneud â dwyn o siopau. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw dwyn o siopau ar gynnydd yn Ynys Môn a ledled Cymru gan nad yw dwyn o siopau’n cael ei gofnodi a ph’un ai a oes Tasglu am gael ei sefydlu i leihau achosion o ddwyn o siopau. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ei bod yn ymwybodol bod dwyn o siopau manwerthu yn flaenoriaeth i Heddlu Gogledd Cymru ac mae gwaith wedi'i wneud gydag archfarchnadoedd o ran cynllun siopau i sicrhau nad yw eitemau gwerth uchel yn cael eu gosod ger y drysau allan. Dywedodd hefyd fod Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn targedu prif droseddwyr i ddeall y rhesymau dros ddwyn o siopau ac i newid patrymau ymddygiad. Cynhaliwyd Wythnos Gweithredu Busnes Mwy Diogel gan yr Heddlu yn ddiweddar gydag archfarchnadoedd gan eu hannog i gysylltu â'r Heddlu i gael cyngor a chefnogaeth ac i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol a mynych. Nododd fod tuedd i weld cynnydd mewn dwyn o siopau yn ystod cyfnod y Nadolig ac mae gwaith wedi'i wneud ar draws yr heddlu i baratoi ar gyfer hyn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes gostyngiad yn nifer y troseddau a adroddwyd yn sgil y ffaith nad yw dioddefwyr yn adrodd am droseddau gan eu bod yn credu na fydd yr Heddlu yn bresennol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei fod yn fodlon trafod y mater gyda'r Heddlu.
- Cyfeiriwyd at achosion o dwyll dros y ffôn ac ar-lein. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw digwyddiadau o'r fath yn cynyddu ar Ynys Môn gan fod twyllwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ffonio pobl. Nodwyd bod yr Adran Safonau Masnach yn trefnu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o dwyll dros y ffôn ac ar-lein. Gall Facebook a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hefyd fod yn ddull o rannu rhybuddion i’r gymuned am dwyllwyr sy'n ffonio pobl. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod achosion o dwyll dros y ffôn ac ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol yn y DU ac yn enwedig targedu pobl oedrannus sy'n agored i niwed. Nododd fod twyll dros y ffôn ac ar-lein yn flaenoriaeth gan yr Heddlu. Rhoddwyd hyfforddiant y llynedd i'r Swyddogion yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n delio â digwyddiadau ac i gefnogi dioddefwyr. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod gan yr Awdurdod rwydwaith Oed-gyfeillgar ac mae angen tynnu sylw at rannu gwybodaeth am dwyll dros y ffôn ac ar-lein a dargedir ar yr henoed a phobl agored i niwed.

**PENDERFYNWYD Nodi cynnwys yr adroddiad a’r dogfennau atodol, a nodi a yw’r Pwyllgor Sgriwtni yn cefnogi’r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i’r dyfodol.**

**CAM GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 6 Y RHAGLEN FFYNIANT BRO – Y DIWEDDARAF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod penderfyniad wedi'i wneud i beidio â chyflwyno cais yn y Rhaglen Ffyniant Bro gyntaf oherwydd bod yr amserlen i ddatblygu cais manwl digonol yn afrealistig. Yn hytrach, penderfynwyd canolbwyntio ar wahodd datganiadau o ddiddordeb gan bartneriaid allanol ar gynlluniau y gellid eu cyflawni mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sir i baratoi ar gyfer ail gylch y Gronfa Ffyniant Bro. Yn ystod yr asesiad, daeth i'r amlwg mai dim ond cais yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol Caergybi fyddai'n debygol o fodloni gofynion penodol Llywodraeth y DU a chael unrhyw siawns o fod yn llwyddiannus. Cyflwynwyd cyfanswm o 5 datganiad o ddiddordeb o Gaergybi a oedd yn cynnwys Cymunedau Môn yn Gyntaf a'r Cyngor Tref; Yr Eglwys yng Nghymru; Canolfan Ucheldre; Amgueddfa Forwrol a Chyngor Sir Ynys Môn – Adfywio Treftadaeth. Nododd fod adroddiad cynnydd wedi'i baratoi sy'n cynnwys y trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen gyda threfniadau rheoli llym ar waith i sicrhau rheolaeth ariannol, cydymffurfiaeth a rheoli risg. Dymunai'r Arweinydd ddiolch i'r staff a fu'n rhan o'r prosiect am y gwaith o gyflawni'r cais llwyddiannus hwn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y caiff prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro eu mesur o ran allbynnau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen Ffyniant Bro fod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cyflwyno ar ddechrau'r broses gais i Lywodraeth y DU a oedd hefyd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen mewn partneriaeth â'r sefydliadau partner. Nododd fod y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd bob chwe wythnos i sicrhau bod adroddiadau monitro a chynnydd yn cael eu trafod yn enwedig mewn meysydd fel caffael er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau. O ran manteision uniongyrchol i ardal Caergybi, ystyrir diwylliant y dref h.y. Eglwys Sant Cybi; ailddatblygu adeiladau gwag i'w defnyddio unwaith eto; uwchraddio'r siopau yng nghanol y dref; cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol yn yr ardal. Nododd mai'r manteision anuniongyrchol yw'r defnydd ychwanegol o fuddion cymunedol yng nghanol y dref; llongau mordeithio yn ymweld â'r dref; cynyddu awyrgylch cyffredinol y dref i ddenu ymwelwyr.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod 5 prif risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn cael eu trafod yn yr adroddiad. Codwyd cwestiynau ynghylch pa gamau sydd yn eu lle i reoli a lliniaru'r risgiau hyn? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr y Rhaglen Ffyniant Bro fod camau llywodraethu cynhwysfawr wedi'u rhoi ar waith o fewn y broses graffu. Mae cofrestr risg gorfforaethol wedi'i sefydlu sy'n cael ei monitro'n rheolaidd gan Fwrdd y Rhaglen. Dywedodd y Prif Weithredwr fel Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen, mai'r prif risg yw caffael, a bod y rhaglen yn cael ei monitro i sicrhau bod modd ei chyflawni o ran costau ac yn unol ag amserlen benodol cyllid y Gronfa Ffyniant Bro. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor ei bod yn anodd craffu ar raglen y Gronfa Ffyniant Bro ar hyn o bryd gan y bydd mwy o fanylion

ar gael ym mis Mawrth i'r Pwyllgor hwn wrth i'r prosiectau ddatblygu ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

- Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai ardaloedd gwahanol o fewn Ynys Môn yn elwa o drydedd cylch cyllid y Gronfa Ffyniant Bro (prosiectau a ddaeth yn ail o fewn ail gam y cyllid). Dywedodd y Prif Weithredwr fod y prosiectau yng Nghaergybi wedi eu cymeradwyo oherwydd eu bod yn barod i symud ymlaen. Mae Llywodraeth y DU bellach wedi diwygio'r gyllideb ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Bro ac yn ystyried y prosiectau o fewn yr ail gam a oedd yn aflwyddiannus ac nid oes unrhyw ardal wedi cyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro fwy nag unwaith.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Rhaglen yn trafod rôl sylweddol partneriaid allanol yn y broses o gwblhau Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn llwyddiannus. Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd ac yn eu cefnogi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn a llwyddiannus. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro fod y prif sefydliad partner yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r ceisiadau sydd hefyd yn fanteisiol i'w ceisiadau. Mae cyfarfod gyda'r sefydliadau partner yn cael ei drefnu bob mis lle mae cyfle i godi unrhyw bryderon. Nododd eu bod fel Swyddogion yn gweithio yn nhref Caergybi ddwywaith yr wythnos, sy'n caniatáu i unrhyw sefydliadau partner allu gofyn am gymorth ar unrhyw fater. Mae swyddogion y Cyngor yn cyfarfod Swyddogion Llywodraeth y DU bob mis i sicrhau bod y prosesau'n cydymffurfio â gofynion cyllid y Gronfa Ffyniant Bro.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd yr holl gronfa yn cael ei gwario'n llwyddiannus, gan sicrhau cydymffurfiaeth a gwerth am arian. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro fod yr amserlen i wario cyllid y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i chyfyngu (Mawrth 2025) gyda phwysau ar bob un o'r sefydliadau partner i allu gwario'r cyllid o fewn yr amserlen.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer y broses ymgeisio a pha drefniadau sydd ar waith i sicrhau tryloywder. Codwyd cwestiynau pellach a fyddai cwmnïau adeiladu lleol yn cael gwneud cais am y prosiectau. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd fod y broses ymgeisio wedi'i chynnal yn 2022 gyda phroses mynegi diddordeb yn dilyn hynny er mwyn galluogi partneriaid allanol i gyflwyno prosiectau posibl ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Bro. Cafodd y prosiectau eu hasesu yn erbyn meini prawf Llywodraeth y DU, ac roedd yn amlwg mai prosiectau Caergybi oedd yr unig brosiectau a fyddai'n llwyddiannus. Mae manylion y prosesau a wnaed yn cydymffurfio â disgwyliadau Llywodraeth y DU. Nodwyd bod yr holl gontractau ar gyfer y prosiectau adeiladu ar gael ar wefan 'Gwerthwch i Gymru' a chynhaliwyd digwyddiad prynwr hefyd ym mis Mehefin 2023 yng Ngwesty Bae Trearddur lle gwahoddwyd contractwyr ar draws Gogledd Cymru.
- Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at y ffaith y gallai 65 o gyfleoedd cyflogaeth gael eu creu yn sgil prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r swyddi hyn ar gael i bobl leol a pha fath o swyddi y rhagwelir y bydd ar gael. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro y rhagwelir y bydd y swyddi o fewn maes lletygarwch a manwerthu, ond mae'n rhy gynnar o fewn y broses i gyfeirio'n benodol at fanylion cyflogaeth ar hyn o bryd. Nododd fod Cyngor Tref Caergybi wedi hysbysebu'n ddiweddar am gyfleoedd busnes newydd ar Draeth Newry a rhagwelir y bydd y busnesau hyn yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd yn nhref Caergybi.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnydd o ran datblygu a chyflawni rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yng Nghaergybi;**
- **Nodi y gweithredir Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU;**
- **Cydnabod rôl y Cyngor wrth gefnogi partneriaid cyflawni'r rhaglen.**

**CAM GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn nodi'r Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2023/2024 i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/2024;**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **18/01/2024** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio a Thrawsnewid Gweithgareddau Dydd yn Ardal Caergybi** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ceisio sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini ar y cynigion i foderneiddio a thrawsnewid Gweithgareddau Dydd (Ardal Caergybi).** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwel Wyn Owen** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Arwel Wyn Owen**<br>**01248 752744**<br>**ArwelOwen3@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Jeff M. Evans**<br>**Cynghorydd Glyn Haynes**<br>**Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**<br>**Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**<br>**Cynghorydd Pip O'Neill**<br>**Cynghorydd Keith R. Roberts**<br>**Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

**Gofynnir i'r Pwyllgor:**

**A1**. Cynnig sylwadau ar y cynigion i foderneiddio a thrawsnewid Gweithgareddau Dydd (Ardal Caergybi).

**A2.** Argymell i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi'r argymhelliad:

Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gweithgaredd dydd a'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o

Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan Adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cysylltiad uniongyrchol â'r amcanion canlynol yn gynllun y Cyngor:

- Cryfhau'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu trwy wella ac annog mynediad i adnoddau cymunedol.
- Sicrhau fod hybiau cymunedol yn darparu gwasanaethau er mwyn caniatáu annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a llesiant pobl.

Gweledigaeth yr Adran Oedolion yw:

- Bod cynifer a phosib o weithgareddau dydd yn cael ei darparu o leoliadau cymunedol gan annog cyfleoedd i bobl gydag Anabledd Dysgu i fynychu gweithgareddau prif lif ac i integreiddio i mewn i fywyd a gweithgaredd pob dydd eu cymunedau.
- Byddai gwireddu'r weledigaeth yn galluogi pobl gydag anabledd dysgu i ddewis lle a phryd maent eisiau mynychu gweithgareddau. Bydd gweithgareddau yn cael eu darparu o fewn cymunedau ar gyfer cymunedau cyfan a allai olygu bod ystod eang o bobl gan gynnwys yr henoed, pobl gydag anabledd corff ac anabledd dysgu yn mynychu'r un gweithgareddau.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae'r adroddiad yn trafod prosesau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar. I ba raddau oedd y prosesau yn gynhwysfawr, priodol a chadarn?
2. Ym mha ffyrdd mae allbynnau'r prosesau wedi dylanwadu ar y cynlluniau moderneiddio?
3. Sut mae'r cynigion arfaethedig yn galluogi'r Awdurdod i wireddu blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023/2028?
4. Pa drefniadau rhoddwyd ar waith i liniaru unrhyw effeithiau ar grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
5. Pa heriau a risgiau all wynebu'r Cyngor wrth geisio gwireddu'r cynlluniau arfaethedig yn ardal Caergybi?
6. Sut y bwriedir monitro gweithrediad y rhaglen moderneiddio?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Cymhelliant yr adroddiad yw ymateb i ddyheadau defnyddwyr gwasanaeth a chynnig profiad gwell a mwy amrywiol.

**GOBLYGIADAU**

<u>Defnyddwyr</u>

Mae ymateb defnyddwyr o fewn yr ymgysylltiad ar ymgynghoriad wedi bod yn hynod bositif o'r newidiadau gyda rhai sydd wedi manteisio ar arlwy cymunedol yn datgan na fyddent yn dymuno dychwelyd i ddefnyddio adeilad Morswyn. Mae'r gweithgareddau dydd yn gymunedol wedi profi'n llwyddiannus ac yn boblogaidd ymysg defnyddwyr gwasanaeth. Canlyniad hyn yw bod y nifer sy'n mynychu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn wedi lleihau. 9 person sy'n dod i'r ganolfan gyda 6 o'r rhain ond yn mynychu'n achlysurol gan ddewis mynychu gweithgareddau yn y canolfannau cymunedol. Bellach rydym yn credu y byddai modd cefnogi mwyafrif o ddefnyddwyr Morswyn yn y gymuned ac y gellid adnabod darpariaeth amgen mewn lleoliad arall neu addasu trefniadau gofal 3 unigolyn sydd a'r anghenion dwysaf. Bydd gweithwyr cymdeithasol yn trafod trefniadau

unigol.

Staff

Mae yna 7 o staff yn cael eu cyflogi yng Nghanolfan Morswyn. Bydd yr holl swyddi presennol yn cael eu gwarchod o fewn y cynllun. Bydd staff yn trosglwyddo i weithio yn gymunedol neu allan o ganolfan arall. Bydd yn golygu newid lleoliad a natur y gwaith ond byddwn yn ceisio sicrhau dilyniant gofal o ran defnyddwyr.

Bydd y swyddi presennol yn cael eu gwarchod a byddai lleoliad gwaith newydd yn cael ei gadarnhau yn dilyn trafodaeth unigol gyda staff gan geisio sicrhau bod yna ddilyniant o ran gofal unigolion a dyheadau'r aelod staff o ran lleoliad.

Cyllid

- Does yna ddim disgwyliad gwireddu arbedion o'r gyllideb staffio gan y bydd y staff yn trosglwyddo i weithio yn y gymuned neu mewn canolfannau eraill.
- Disgwylir arbediad cyllideb refeniw o £29,000. O'r cyfanswm yma mae £17,500 wedi cael ei wireddu yn barod oherwydd gostyngiad yn nefnydd y Ganolfan. Mae hyn yn gadael £11,500 i'w wireddu ar gau'r adeilad.

Adeilad

Bydd terfynu defnydd adeilad Morswyn yn osgoi:

- £103,000 o gostau cynnal a chadw angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf. Mae asesiad gan yr Adran Eiddo o'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn cynnwys:

    - Ail doi'r adeilad- toeau llechi a ffelt.
    - Ail blastro'r waliau tu allan.
    - Addasiadau i foderneiddio rhai o'r ffenestri a mewnosod larymau.
    - Diweddaru'r rhwydwaith trydan.

  Hen ysgol yw Canolfan Morswyn gyda chabanau wedi eu hychwanegu i'r safle er mwyn creu gofod ychwanegol. Mae nifer o broblemau ymarferol gyda'r adeilad e.e. nid yw'r adeilad yn llwyr hygyrch ar gyfer pobl gydag anawsterau symudedd oherwydd ei ddyluniad.

- Mae'r Adran wedi derbyn cadarnhad o werth ariannol yr adeilad i'w waredu gan yr Adran Eiddo.
- Mae'r Adran wedi gofyn am gadarnhad o statws cyfreithiol yr adeilad cyn ystyried ei waredu (freehold).

**CANOLFAN DDYDD MORSWYN (CAERGYBI)**

Mae Canolfan Ddydd Morswyn wedi ei leoli yn adeilad hen ysgol Morswyn yng Nghaergybi. Cyn y pandemig Covid roedd y ganolfan yn brysur ac yn darparu gweithgareddau ar gyfer oddeutu 20 unigolyn yn ddyddiol. Pan darodd y pandemig ddechrau 2020 bu rhaid i'r ganolfan gau am gyfnod er mwyn rhwystro pobl gymysgu a lledaenu'r firws.

Pan laciodd cyfyngiadau'r pandemig, er mwyn gweithredu rheolau pellhau cymdeithasol nid oedd modd derbyn yr un nifer i adeilad Morswyn. Mewn ymateb i'r sialens, dechreuodd y Gwasanaeth Oedolion ddefnyddio adeiladau cymunedol Tref Caergybi i gynnal gweithgareddau. Mae defnydd cyson ar adeiladau 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol ac mae'r Cyngor wedi cynorthwyo'r mudiad sy'n rhedeg Boston Centre Stage i ymgeisio am arian i gyflwyno addasiadau fel toiledau i'r anabl.

Yn draddodiadol mae gweithgaredd dydd ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu wedi ei ddarparu o adeiladau dynodedig. Mae gan y Cyngor bedwar safle penodol sy'n darparu gweithgaredd i oddeutu 110 o bobl:

- Canolfan Ddydd Morswyn, Caergybi
- Canolfan Ddydd Gors Felen, Llangefni
- Canolfan Ddydd Blaen y Coed, Llangoed
- Gerddi Haulfre, Llangoed

Mae'r Gwasanaeth Oedolion hefyd yn archebu darpariaeth ehangach ar gyfer oddeutu 67 o bobl gan y trydydd sector.

Er bod mynychu'r canolfannau a'r lleoliadau yn ymateb â llawer o anghenion pobl, mae'r model wedi canolbwyntio ar fynychu lleoliad, ac ymgymryd â gweithgareddau ffurfiol. Gall hyn gyfyngu dewisiadau unigolion a chyfyngu rheolaeth bersonol pobl am eu bywydau eu hunain. Gan fod y canolfannau yn darparu ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn unig gall gael yr effaith anfwriadol o dynnu pobl gydag anableddau dysgu allan o fywyd dydd i ddydd eu cymunedau lleol. O ganlyniad nid ydynt bob amser yn hyrwyddo'r bwriad i gynyddu hyder ac annibyniaeth pobl gydag anabledd dysgu. Er bod pobl yn ddiogel yn y canolfannau rhaid holi os mai mynychu un lleoliad yn ddyddiol yw'r ffordd orau o hyrwyddo byw bywydau llawn. Mae'r Adran yn ardal Caergybi wedi edrych ar ddull gwahanol o gwrdd ag anghenion defnyddwyr a'r adwaith wedi bod yn gadarnhaol.

Mae'r nifer o bobl sy'n mynychu gweithgareddau yn rheolaidd yn yr adeiladau cymunedol yng Nghaergybi yn 28. Mae'r rhain yn cynnwys pobl oedd yn flaenorol yn mynychu Morswyn a phobl sydd wedi trosglwyddo yn rhannol o weithgareddau eraill yn lleol.

Mae llwyddiant y gweithgareddau cymunedol i ddenu pobl yn profi i'r Adran bod y strategaeth yn gywir, a bod y buddsoddiad yn yr adeiladau cymunedol nid yn unig yng Nghaergybi ond ar draws yr Ynys yn werth eu gwneud. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o fanylion am fuddsoddiad yr Adran Oedolion mewn adeiladau cymunedol.

**GWELEDIGAETH**

Mae'r Gwasanaeth Oedolion yn dymuno datblygu'r model ac ehangu'r nifer o leoliadau sy'n darparu gweithgareddau dydd i bobl gydag Anabledd Dysgu yn ardal Caergybi. Byddai dargyfeirio adnoddau o Ganolfan Morswyn yn caniatáu buddsoddiad pellach yn y weledigaeth honno.

**YMGYSYLLTU GYDA DEFNYDDWYR GWEITHGAREDDAU DYDD**

Yn ystod Mis Awst a Mis Medi 2023 casglodd yr Adran Oedolion farn y bobl sy'n defnyddio gweithgareddau dydd yn ardal Caergybi a'u teuluoedd. Derbyniwyd ymateb gan 37 o bobl, sy'n fynychwyr rheolaidd o'r gweithgareddau yn Boston, y Sgowtiaid Morwrol a Morswyn. Bwriad yr ymarferiad oedd mesur barn defnyddwyr a'u teuluoedd am y gweithgareddau sy'n cael eu darparu o leoliadau cymunedol, a be fyddai pobl yn dymuno ei weld i'r dyfodol. Gofynnwyd tri chwestiwn:

- Pa weithgareddau dydd fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cynnig yn y dyfodol?
- Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel Boston Centre Stage a'r Sgowtiaid Morwrol?
- A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi?

Mae 'Atodiad 1' yn cynnwys trawstoriad o'r ymatebion.

Roedd mwyafrif yr adborth a dderbyniwyd yn bositif tuag at y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol.

Mynegwyd dyheadau cryf tuag at gynyddu'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol. Yn benodol roedd gofyn am weithgareddau ymarferol fel chwaraeon ac awyr agored.

Casgliad yr Adran Oedolion o'r ymarferiad yma oedd bod pobl ar y cyfan yn gefnogol i'r weledigaeth o ddefnyddio adnoddau cymunedol i ddarparu gweithgareddau dydd a bod deheuad cryf i gynyddu amrywiaeth ymhellach.

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

Rhwng y 23/10/2023 a'r 01/12/2023 cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn. Ymgynghorwyd ar y cynnig canlynol:

- Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'?
- A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi?
- A fyddech chi'n fodlon i'r Cyngor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol

yn ardal Caergybi?

- Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl?

Anfonwyd 123 o becynnau a holiaduron yn y post. Un pecyn i bob person ar y gofrestr pobl gydag anabledd dysgu yn ardal Caergybi (carfan ehangach na'r grŵp craidd o bobl sy'n mynychu'r gweithgareddau dydd yn rheolaidd). Cafodd staff Canolfan Ddydd Morswyn a'r staff sy'n cynnal y gweithgareddau mewn lleoliadau eraill eu hysbysu bod yr ymgynghoriad yn cychwyn ac fe anogwyd i gyfrannu. Roedd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ac yn agored i bawb gyfrannu. Yn ychwanegol at hyn roedd cymorth ar gael dros y ffôn a thrwy adfocatiaeth i bobl oedd yn dymuno derbyn cymorth.

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion.

Derbyniwyd 34 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion:

| 1)Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'? | | | 2)A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | | | 3)A fyddech chi'n fodlon i'r Cyngor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi? | | | 4)Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | Na | Dim Sylw | Byddwn | Na | Dim Sylw | Byddwn | Na | Dim Sylw | Byddai | Na Fyddai | Dim Sylw |
| 14 | 7 | 11 | 25 | 5 | 2 | 15 | 12 | 5 | 4 | 14 | 12 |

Crynodeb o ymatebion i'r Ymgynghoriad:

- Roedd y mwyafrif o'r bobl wnaeth ymateb yn hapus gyda'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu o'r adeiladau cymunedol yn Boston ac yn y Sgowtiaid Morwrol.
- Roedd y mwyafrif helaeth o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 2 yn awyddus i weld mwy o weithgareddau dydd cymunedol yn cael eu darparu.
- Roedd y mwyafrif o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 3 yn fodlon i'r Cyngor ddod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn er mwyn ymestyn gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi. Roedd 47% yn fodlon a 38% yn anfodlon.
- Roedd y mwyafrif helaeth o bobl wnaeth ymateb i gwestiwn 4 o'r farn na fyddai dod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn yn cael effaith ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.

**CASGLIAD**

- Mae'r weledigaeth i ddarparu cynifer a phosib weithgareddau dydd o leoliadau cymunedol yn derbyn cefnogaeth glir gan y bobl sydd wedi cael profiad o'r model yma o ddarpariaeth.
- Ar y cyfan mae'r bobl sydd wedi cael profiad o fynychu gweithgareddau dydd yn Boston Centre Stage ac yn adeilad y Sgowtiaid Morwrol yn bositif iawn am eu profiadau. Mae rhai wedi mynegi barn gref na fyddent eisiau dychwelyd yn ôl i ganolfan Morswyn.
- Mae mwyafrif helaeth o bobl sydd wedi mynegi barn eisiau gweld mwy o amrywiaeth yn y ddarpariaeth gofal dydd a darparu rhagor o weithgareddau mewn mwy o leoliadau gwahanol.
- Byddai dod a gweithgareddau dydd i ben yng Nghanolfan Morswyn yn rhyddhau adnoddau a chaniatáu i'r Adran Oedolion ddargyfeirio adnoddau a staff at sefydlogi ac ymestyn gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnal mewn adeiladau cymunedol eraill.
- Roedd unigolion oedd heb brofiad o weithgareddau cymunedol yn llai cefnogol. Mynegwyd pryderon am sut y gellid cefnogi pobl ag anghenion dwys yn gymunedol. Bydd y Gwasanaeth Oedolion yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod sut orau i gwrdd â'u hanghenion. Mae hyn wedi amlinellu yn Atodiad 3, Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb. Gall olygu cynnig Gofal Dydd mewn ffordd wahanol neu gynnig gwasanaeth o Ganolfan Gors Felen yn Llangefni.

**ARGYMHELLIAD**

Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gweithgaredd dydd a'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan Adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Mae'r Cyngor yn cynnig addasu'r cyfleon gweithgareddau dydd er mwyn hybu a chefnogi pobl gydag anabledd dysgu i gymryd mwy o ran ac integreiddio yn eu cymunedau. Gall fod angen newid lleoliad gweithgareddau all olygu symud i leoliad arall.<br><br>Bydd anghenion unigol yn cael eu trafod ynghyd ac unrhyw newidiadau e.e. teithio ac unrhyw addasiadau rhesymol eraill. |

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Dim effaith

Mae'r gwasanaeth yn cynnig ail gyfeirio adnoddau oddi wrth gynnal adeilad er mwyn ehangu darpariaeth gweithgareddau dydd mewn adeiladau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr un ardal.

Mi fydd y Gwasanaeth Oedolion yn gweithio gyda phobl i adnabod y dulliau gorau i gwrdd a'u anghenion ac os bydd hyn yn golygu trafeilio i leoliadau, bydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar gost y Cyngor.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Mae effaith yr argymhelliad yn gadarnhaol trwy gynnig mwy o opsiynau i bobl Gymraeg gydag anabledd dysgu i ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Does yna ddim disgwyliad gwireddu arbedion o'r gyllideb staffio gan y bydd y staff yn trosglwyddo i weithio yn y gymuned neu mewn canolfannau eraill.

Disgwylir arbediad cyllideb refeniw o £29,000. O'r cyfanswm yma mae £17,500 wedi cael ei wireddu yn barod oherwydd gostyngiad yn nefnydd y Ganolfan. Mae hyn yn gadael £11,500 i'w wireddu ar gau'r adeilad.

Bydd terfynu defnydd adeilad Morswyn yn osgoi £103,000 o gostau cynnal a chadw angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf.

**8 – Atodiadau**

**Atodiad 1 -** Trawstoriad o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu Awst - Medi 2023
**Atodiad 2** – Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgysylltu ffurfiol
**Atodiad 3** – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
**Atodiad 4 –** Adnoddau Cymunedol

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cynllun y Cyngor 2023-28

## Atodiad 1- Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgysylltiad (Awst/ Medi 2023)

| | 1) Pa weithgareddau dydd fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu cynnig yn y dyfodol? | 2)Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel Boston Centre Stage a'r Sgowtiaid Morwrol? | 3) A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | Unrhyw Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | Mae canolfan galw i mewn yn well na 5 diwrnod yr wythnos – dewis ac amrywiaeth o ran beth i'w wneud/lle i fynd. Mae 'A' yn hoffi arsylwi, nid yw'n mwynhau pan mae hi'n rhy dawel. | Ydw – ond mae angen sicrhau bod cyfleusterau newid addas ar gael. Mwy o gyfleusterau newid ar yr ynys, mae'n well nag yr oedd yn arfer bod. Mae angen dau berson i newid. Ydw, hapus gyda phob peth. | Ddim yn ymwybodol o sut rai yw'r cyfleusterau o gymharu ag ardaloedd eraill. Byddai'n dda cael mwy o weithgareddau lle gall pobl ddod ynghyd. Cael mwy o gyfleoedd cymdeithasol. | Mae hi wrth ei bodd – byddai'n dod bob dydd pe byddai'n gallu. Mae hi'n ei golli pan mae'n mynd i ffwrdd, teimlo ei bod yn colli allan. Byddai'n torri ei chalon pe bai hynny'n cael ei chymryd oddi wrthi. Mae'n hoffi cael dewis, ac mae hi wedi gwneud ffrindiau newydd nad oedd hi'n eu hadnabod cyn hynny. |
| **Ymateb** | Hyrwyddo bwyta iach, mae 'A' wedi dechrau magu pwysau. Sesiynau nofio rheolaidd. Unrhyw beth yn yr awyr agored – cerdded yw un o hoff bethau 'A'. Sesiynau chwaraeon, pêl-picl, pêl-fasged er enghraifft. Y Sinema.<br>Tripiau – Mae 'A' wrth ei bodd yn mynd i unrhyw le. Cartio. | Ydw, hapus gyda'r staff. Maent yn gwrando ar yr hyn yr ydym yn ei ddweud. | Mwy o ddigwyddiadau yn yr awyr agored. | Byswn i'n licio gwasanaeth dydd lle ma nhw'n helpu fi i fod yn fwy annibynnol e.e. mynd ar y bws, i'r siop ar ben fy hun. |

## Atodiad 1 (parhad)- Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgysylltiad (Awst/ Medi 2023)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb** | Sesiynau nofio rheolaidd.<br>Mae hi'n caru'r amser mae hi'n ei dreulio yno, gyda'i ffrindiau ac mae'n saff. Mae'n teimlo'n ddiogel yno. | Ydw – dwi wir yn ei fwynhau o, cael treulio amser efo ffrindiau, a dwi'n mwynhau'r gweithgareddau. Dwi'n cael dewis beth dwi eisiau ei wneud. | Unrhyw fath o berfformio. Mae hi'n hoffi cael ei chynnwys a chymryd rhan. | Mae popeth yn dda. |
| **Ymateb** | Rydw i'n mwynhau'r chwaraeon a'r nofio. Rydw i'n hoffi'r amrywiaeth o fod mewn un adeilad ond hefyd medru mynd i wahanol leoedd mewn cerbyd. Gweithgareddau adeiladu tîm. Cerddoriaeth – bod yn rhan o fand. Ydw – rydw i'n mwynhau'r fawr, cael treulio amser efo ffrindiau, ac rydw i'n mwynhau'r gweithgareddau. Rydw i'n cael dewis beth dwi eisiau ei wneud. | Ydw - Bydd 'A' yn dewis cyfleusterau cymunedol yn hytrach na Morswyn pan mae o'n cael dewis. Mae'n well ganddo adeilad y Cadetiaid Môr; rydw i'n meddwl fod hyn oherwydd bod yr adeilad yn fwy golau. Mae'n dibynnu ar y cyflwr, mae dau le yn golygu y byddai llai o effaith ar bobl petai rheswm i gau. Mae Morswyn yn rhoi mwy o gymorth i, yn hytrach na gyda. Yma mae pobl yn derbyn y cymorth y maen nhw ei angen ac yn gwneud yr hyn y maen nhw'n gallu ei wneud eu hunain. | Byddwn, dwi'n hoffi gwneud mwy. Dwi'n hoffi mynd am fwyd, mynd i gerdded, tripiau dydd gydag anifeiliaid, sioeau. Dwi'n cael dweud beth hoffwn i inni wneud a lle i fynd. Rydw i wedi chwarae gemau nad oeddwn i'n meddwl y byswn i'n medru eu chwarae, er enghraifft, cymryd rhan mewn ras wy ar lwy. | Edrych ymlaen at y cynllun peilot |
| **Ymateb** | Nofio. Angen cynnwys cyfleoedd i wneud ymarfer corff. Mynd i'r gampfa. Mwynhau crefftau a gweithgareddau ymarferol. Dawnsio, mae'n mwynhau cerddoriaeth. | Ydi, mae Boston a'r Cadetiaid Môr yn wahanol iawn. Mae'n fwy bywiog. Roedd y diwrnodau'n hirach yn Morswyn ac roedd hi'n barod i adael ar ôl rhyw awr. | Byddwn – byddai'n braf cael diwrnod chwaraeon, coginio, grŵp gwau, crosio, celf a chrefftau. | |

# Atodiad 2- Ymgynghoriad- Dyfodol Canolfan Ddydd Morswyn (23/10/2023-01/12/2023)

| | 1) Wyt ti | | | 2) Ydych chi'n hapus gyda'r gweithgareddau dydd sy'n cael eu darparu o adeiladau cymunedol fel 'Boston Centre Stage' a'r 'Sgowtiaid Morwrol'? | | | 3) A fyddech chi'n dymuno gweld mwy o weithgareddau dydd cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghaergybi? | | | 4) A fyddech chi'n fodlon i'r Cyngor roi'r gorau i gynnig gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn ac ymestyn gweithgareddau mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi? | | | 5) Ydych chi'n meddwl y byddai terfynu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg o gwbl? | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb | Yn berson gydag Anabledd Dysgu | Yn riant neu ofalwr i berson ag Anabledd Dysgu | Arall, ysgrifennwch isod | Ydw | Na | Dim Ymateb | Ydw | Na | Dim Ymateb | Ydw | Na | Dim Ymateb/ | Byddai | Na Fyddai | Dim yn Gwybod/ Dim yn Gwybod |
| 1 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 2 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | |
| 3 | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | |
| 4 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 5 | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 6 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 7 | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 8 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 9 | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ |
| 10 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | |
| 11 | ✓ | | | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | |
| 12 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 13 | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ |
| 14 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 15 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 16 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 17 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| 18 | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | |
| 19 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| 20 | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 21 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 22 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 23 | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ |
| 24 | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 25 | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | |
| 26 | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |
| 27 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | | |
| 28 | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 29 | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | |
| 30 | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | |
| 31 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | |
| 32 | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ |
| | 15 | 10 | 7 | 14 | 7 | 11 | 25 | 5 | 2 | 15 | 12 | 5 | 4 | 14 | 12 |
| 33 | Llythyr heb ymateb i'r cwestiynnau yn uniongyrchol | | | | | | | | | | | | | | |
| 34 | Llythyr heb ymateb i'r cwestiynnau yn uniongyrchol | | | | | | | | | | | | | | |

## Atodiad 2 (Parhad)- Sylwadau Ysgrifenedig ac Ymateb y Gwasanaeth Oedolion

| **Crynodeb o Faterion a amlygwyd yn ystod yr Ymgynghoriad gydag Ymateb yr Adran** | |
|---|---|
| **Materion a Rannwyd Sylwadau a Phryderon** | **Ymateb y Gwasanaeth** |
| Nid yw'r ymgynghoriad wedi cynnwys barn defnyddwyr sy'n cael anhawster cyfathrebu | Trefnwyd sgyrsiau unigol gydag unigolion/teuluoedd fyddai’n cael eu heffeithio yn uniongyrchol a gwahoddwyd Gwasanaeth Eiriolaeth i estyn cymorth. O fwrw ymlaen bydd trefniadau unigol yn cael eu cadarnhau i sicrhau bod y ddarpariaeth amgen yn addas. Gall hyn olygu cefnogi o Ganolfan arall. |
| Mae'n annerbyniol meddwl am gau Morswyn a symud y bobl sydd ag anableddau dwys ac angen cymorth i fwydo a newid i le fel Boston a lle arall sydd heb doiled anabl. | Mae addasiadau wedi eu cyflwyno o fewn adeilad y Sea Scouts a Boston Centre Stage ac mae’r rhain wedi bod y addas ar gyfer unigolion sy’n defnyddio'r adeilad. Gellid hefyd ystyried lleoliadau adeiladau eraill ac addasiadau pellach. |
| Does dim gwaith gwario ar Morswyn, tydi'r tô ddim yn gollwng. | Mae'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn Morswyn wedi ei amlinellu o fewn yr adroddiad. Rhagwelir y bydd angen buddsoddiad yn y dyfodol agos i gynnal safon yr adeilad. |
| Mae Canolfan Morswyn wedi bod yn agored ers cryn amser yng Nghaergybi ac mae’n lle defnyddiol i bobl ag anableddau fynd. Mae’n cynnig pob math o weithgareddau iddynt eu gwneud. | Mae nifer o ddefnyddwyr wedi cadarnhau eu bod yn mwynhau gweithgareddau cymunedol ac wedi datgan y byddent yn dewis gweld y rhain yn cael ei datblygu a’u hymestyn.<br><br>Gweledigaeth yr Adran Oedolion yw gallu darparu ystod eang o weithgareddau o wahanol adeiladau er mwyn hyrwyddo integreiddio. |

## Atodiad 2 (Parhad)- Sylwadau Ysgrifenedig ac Ymateb y Gwasanaeth Oedolion

| | |
|---|---|
| Y cwbl sydd angen ei wneud yw diweddaru Morswyn a gosod/darparu pethau i bobl eu gwneud, i roi mwy o ddewis o bethau iddynt eu gwneud. | Ni fyddai Morswyn yn addas yn yr hir dymor heb gyflwyno gwelliannau sylweddol ac mae nifer y defnyddwyr wedi lleihau gan fod unigolion bellach yn ffafrio gweithgareddau mwy amrywiol mewn lleoliadau gwahanol. |
| Rydw i wedi bod yn ofalwr yng Nghanolfan Morswyn yn ystod y 12 mlynedd diwethaf ac rydw i wedi gweithio i'r Cyngor am 35 mlynedd. Mae ein lle ni fel ail gartref i'n cleientiaid, rydym yn darparu gofal a gweithgareddau yno ac nid yw lleoedd eraill yn darparu hynny, ac maent yn teimlo'n ddiogel yma. | Mae staff Morswyn wedi ac yn cynnig gwasanaeth o safon i unigolion ac rydym eisiau i hyn barhau, ond bod y gefnogaeth yn cael ei ddarparu o leoliadau gwahanol, gan gynyddu cyfleoedd a chynnig amrywiaeth o brofiadau. |
| Dydw i ddim yn credu y gall y gwasanaethau eraill gynnig yr un lefel o ofal, yn enwedig i'r rhai sydd ag anghenion gofal uwch, megis gofal personol. Mae'r holl gyfleusterau hyn ar gael ym Morswyn. | Os bydd anghenion ychwanegol uwchlaw'r hyn y gellir ei ddarparu yn gymunedol bydd trafodaeth gydag unigolion a'u teuluoedd. Gall olygu defnyddio adeiladau cymunedol eraill, trefniadau unigol gwahanol neu ddefnydd o Gors Felen. |
| Dydyn ni ddim wedi defnyddio Canolfan Morswyn ond rydym yn defnyddio'r grŵp Cadetiaid Môr/ Boston Centre Stage. Mae'r grŵp yma wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy merch. Mae'r cynllun peilot yng Nghanolfan Gwelfor wedi bod yn wych. Mae hyder fy merch wedi tyfu cymaint ac mae hi'n llawer mwy cymdeithasol ac mae hi'n medru mynegi ei barn yn haws a gwneud ei dewisiadau / penderfyniadau ei hun. | Mae'r newidiadau yn deillio o awydd i ymestyn cyfleoedd a gall fod yn bosibl ehangu nifer y lleoliadau a gweithgareddau fydd yn cael eu cynnig. Gwyddwn fod yna weithgareddau ac adeiladau eraill ar gael yn ardal Caergybi, ond byddai yn ofynnol ar symud staff ac unigolion i ddatblygu. |

**Atodiad 3**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 14/03/2023 | Drafft cyntaf |
| 2 | 10/10/2023 | Ail Ddrafft |
| | | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Yr effaith ar gydraddoldeb yn deillio o gynnig y Gwasanaeth Oedolion i holi a fyddai cefnogaeth gan randdeiliaid i ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn er mwyn ail gyfeirio adnoddau at ehangu'r opsiynau gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol, a darpariaeth gan fudiadau cymunedol. |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Cynnig Newydd |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Gwahodd adborth a barn rhanddeiliaid ardal Caergybi ynglŷn â'r newid yn y modd mae gweithgareddau dydd yn cael eu darparu gyda phwyslais ar adeiladau cymunedol. Mae niferoedd y bobl sy'n mynychu Canolfan Ddydd Morswyn wedi gostwng gan fod pobl yn dewis a ffafrio mynychu gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnal mewn adeiladau cymunedol yn ardal Caergybi. Gofyn a fyddai cefnogaeth gan randdeiliaid ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn er mwyn caniatáu'r Cyngor i ail gyfeirio adnoddau at ehangu'r opsiynau gweithgareddau dydd sy'n cael eu cynnig o leoliadau cymunedol a gan fudiadau cymunedol. |
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Pennaeth Gwasanaeth Oedolion |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Gwasanaeth Uned Darparu – Gwasanaeth Oedolion |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Rheolwr Gwasanaeth Uned Darparu – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl - Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Canolfan Byron – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Tîm Anabledd Dysgu – Gwasanaeth Oedolion<br>Rheolwr Trawsnewid a Datblygu – Gwasanaeth Oedolion |

| Cam 1: Y Cefndir | | |
|---|---|---|
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynllun y Cyngor 2022-2028. | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | Ydy - Mae'n benderfyniad strategol i ail gyfeirio darpariaeth Gwasanaeth Dydd i ffwrdd oddi wrth adeiladau penodol tuag at wasanaethau cymunedol sy'n caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu integreiddio mwy fwy ym mywyd pob dydd eu cymunedau. | |
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy | • Oedolion gydag Anabledd Dysgu sy'n mynychu gwasanaethau dydd mewnol (Morswyn).<br>• Eu teuluoedd a'u gofalwyr.<br>• Staff a Rheolwyr Gwasanaeth mewnol. | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd cymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas (gweler atodiad 1). | • Darparwyr Allanol o wasanaethau dydd.<br>• Mudiadau trydydd sector.<br>• Staff Gwaith Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ni ddylai'r cynnig gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo dull rhagweithiol i wneud cynnig yn yr Iaith Gymraeg yn unol â fframwaith strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth drefnu a darparu ein gwasanaethau cymdeithasol. |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Mae nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion ieithyddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfathrebu gyda ni mewn iaith o'i dewis nhw.<br><br>Mae gofyn yn barod mewn lle bod pob darparwr (mewnol ac allanol) yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn bod yn ddiwylliannol sensitif. |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Mae'r gwasanaeth yn barod yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ac mi fydd y cynllun hwn yn parhau i gynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Does dim bwriad newid darparwr y gwasanaeth, y Cyngor (Gwasanaeth Darparu mewnol) fydd yn parhau i ddarparu. |

| **Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Mi fydd y cynllun yn rhoi cyfle pellach i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau trwy roi cyfleoedd i bobl gymryd rhan yn weithgareddau bob dydd eu cymunedau. |
| Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;<br><br>**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar Monitor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . | |

| **Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998** | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | Gall newid y ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu gael effaith ar hawliau unigolion mewn perthynas â:<br><br>Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull - gall nifer fechan o ddefnyddwyr gwasanaeth gydag anghenion dwys orfod symud i ganolfannau eraill yn bellach i ffwrdd er mwyn parhau i dderbyn gwasanaeth am nad yw rhai adeiladau cymunedol yn addas ar eu cyfer. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | |
| | Cymru gydnerth | Ydi – cefnogi cymunedau i fod yn gynhwysol. |
| | Cymru iachach | Ydi – cefnogi pobl gydag anabledd dysgu i gael mynediad at weithgareddau amrywiol er bydd llesiant corfforol a meddyliol. |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydi - caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu gael cymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn cymunedau. |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydi – caniatáu i bobl gydag anabledd dysgu gael cymryd rhan mewn gweithgareddau a dod i nabod pobl eraill yn eu cymunedau. |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | • Mae rheolwyr a staff yng Nghanolfan Morswyn yn ymwybodol bod adolygiad o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal.<br>• Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd eisoes wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar safleoedd eraill.<br>• Mae swyddogion o'r Adran Oedolion wedi ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth / rhieni a gofalwyr yn ardal Caergybi er mwyn casglu barn pobl ynglŷn â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig, y lleoliadau presennol sy'n cynnig y gweithgareddau, a dymuniadau pobl i'r dyfodol ar gyfer datblygu gweithgareddau. |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Dim |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Na |

**Cam 3: Asesu’r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella’r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o’r canlynol os gwelwch yn dda - **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | Dim effaith | Dim yn berthnasol i’r grŵp yma | |
| Anabledd | Cadarnhaol | Mae’r Cygnor yn cynnig addasu’r cyfleon gweithgareddau dydd er mwyn hybu a chefnogi pobl gydag anabledd dysgu i gymryd mwy o ran ac integreiddio yn eu cymunedau. Gall fod angen newid lleoliad gweithgareddau all olygu symud i leoliad arall. | Pe bydd cynnig i gau Canolfan Morswyn yn cael cefnogaeth bydd y Gwasanaeth Oedolion yn trafod anghenion unigol unigolion gyda nhw.<br><br>Bydd anghenion unigol yn cael eu trafod ynghyd ac unrhyw newidiadau e.e. teithio ac unrhyw addasiadau rhesymol eraill. |
| Rhyw | Dim effaith | | |
| Newid Rhyw | Dim effaith | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim effaith | | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Dim effaith | | |
| Crefydd neu Gred | Dim effaith | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith | | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Dim effaith | | |

| **Y grŵp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | Cadarnhaol | Trwy gynnig mwy o opsiynau i bobl Gymraeg gydag anabledd dysgu i ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau. | |
| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Mae'r newid yn un cadarnhaol o ran cynyddu'r cyfleoedd i bobl gydag anabledd dysgu i integreiddio yn eu cymunedau. | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | Dim | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol.  Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1) | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | Dim effaith | Mae'r gwasanaeth yn cynnig ail gyfeirio adnoddau oddi wrth gynnal adeilad er mwyn ehangu darpariaeth gweithgareddau dydd mewn adeiladau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr un ardal. | Mi fydd y Gwasanaeth Oedolion yn gweithio gyda phobl i adnabod y dulliau gorau i gwrdd â'u hanghenion ac os bydd hyn yn golygu teithio i leoliadau, bydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar gost y Cyngor. |



**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/a'u yng ngham 3). | Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y gall fod angen trosglwyddo un person sy'n mynychu Canolfan Morswyn i ddarpariaeth arall. Mae hyn oherwydd anghenion dwys y person sy'n golygu na fydd mynychu lleoliadau cymunedol yn addas.<br><br>Byddwn yn trafod dymuniadau'r unigolyn a sut orau i gyfarch eu hanghenion. Mae lleoliad ar gael o fewn Canolfan Gors Felen. |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | Mae anghenion pob person, a'r ffordd orau i gwrdd â'r anghenion hyn yn cael eu trafod a'u cytuno gyda nhw. |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno gydag argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Bydd Tîm Rheoli'r Adran Oedolion yn goruchwylio'r broses ymgynghori yn ogystal â nodi materion sydd angen eu gweithredu. |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 4 – Adnoddau Cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi gosod Cyfleusterau Newid Hygyrch i Oedolion (*Accessible Adult Changing Facilities)* mewn gwahanol leoliadau ar draws Ynys Môn. Mae'r cyfleusterau hyn yn galluogi oedolion ag anableddau a'u gofalwyr i ymweld â'r lleoedd hyn, ble efallai na fyddant wedi gallu yn y gorffennol.

Mae Cyfleusterau Newid Hygyrch Oedolion yn amrywio o ran gofod a chyfluniad, ond yn gyffredinol maent yn cynnwys toiledau hygyrch, byrddau newid maint oedolion, codwyr *(hoist)* trydanol neu dan arweiniad â llaw, ac weithiau cawodydd.

Rydym wedi buddsoddi mewn Cyfleusterau Newid Hygyrch i Oedolion yn yr adeiladau cymunedol canlynol.

- Canolfan Hamdden Caergybi
- Llyfrgell Caergybi
- Boston Centre Stage, Caergybi
- Canolfan Hamdden Llangefni
- Gors Felen, Llangefni
- Mencap Môn, Llangefni
- Canolfan Hamdden Amlwch

O ganlyniad i'r buddsoddiad mae gan unigolion gydag anabledd dysgu neu anabledd corfforol ddewis ehangach o weithgareddau cymunedol, sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i gymdeithasu ac integreiddio.

Fel rhan o waith ehangach i sicrhau ein bod yn deall pa mor hygyrch ac addas ydi adeiladau Cymunedol ar gyfer gweithgareddau, rydym wedi creu Cyfeirlyfr Adeiladau Cymunedol.

Cyfeirlyfr adeiladau cymunedol (llyw.cymru)

Yn ogystal, rydym yn creu Cyfeirlyfr Cludiant Cymunedol bob dwy flynedd, er mwyn sicrhau fod pobl yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn gymunedol.

Cyfeirlyfr Cludiant Cymunedol Môn (llyw.cymru)

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **18 Ionawr 2024** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru, Chwarter 2 2023/24** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Chwarter 2 Cynllun Twf Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams. Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor: |
| **A1** Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod chwarter 2 2023/24. |

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:

- Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith
- Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**Cefndir**

5.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

5.2 Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**5.3 Cynnydd Chwarter 2 2023/24**

5.3.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.3.2. Yn ystod y chwarter hwn, cafodd 5 prosiect ei gwahodd i ymuno gyda'r Cynllun Twf:

- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol gan Zip World gyda dyraniad amodol o £6.2m
- Prosiect Stiwdio Kinmel gan Stage Fifty gyda dyraniad amodol o £6.8m
- Prosiect Hwb Hydrogen Caergybi gan Menter Môn gyda dyraniad amodol o £3.8m
- Prosiect Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy gan The Circular Economy Ltd gyda dyraniad amodol o £6.4m
- Prosiect Porth Wrecsam gan Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam gyda dyraniad amodol o £4.79m

Mae gwaith ar y gweill i anwytho prosiectau newydd, ac ymweliadau safle wedi ei trefnu i'r 5 prosiect. Bydd y prosiectau newydd yn cefnogi ein economi i ffynnu, creu swyddi newydd ac denu buddsoddiad i mewn i Ogledd Cymru.

5.3.3. Roedd y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau ar gyfer yr Her Ariannwr Hydrogen ar yr 11eg o Fedi. Mae'r broses werthuso ar y gweill, gyda penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig yn Rhagfyr 2023. Mae £11.2 miliwn o gyfalaf ar gael i alluogi'r galw am hydrogen yn y diwydiant.

5.3.4. Mae diweddariad Chwarter 2 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio. Mae pum prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Cysylltu yr Ychydig % Olaf – Mae gweithgaredd caffael ar y prosiect wedi'i atal nes bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau dyddiad lansio ei hymyrraeth newydd, disgwylir iddo gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 i'w lansio yn 2024.Mae'n bosibl bydd ymyrraeth Llywodraeth y DU yn tynnu yr angen am y prosiect Cysylltu yr Ychydig % Olaf.
- Porth y Gorllewin, Wrecsam – mae angen adolygiad o'r prosiect i asesu'r gwaith o'i gyflawni gan ystyried y Panel Adolygu Ffyrdd a phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad priffyrdd.

- Cyn Ysbyty Gogledd Cymru - mae'r bwlch hyfywedd ar y prosiect wedi cynyddu, mae trafodaethau yn parhau gyda'r partner datblygu i drafod atebion posibl.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Fel rhan o'r cyngor cyn cynllunio argymhellwyd fod angen arolygon ystlumod ar dir tu allan i ffin Glynllifon. Mae gwaith arolygu ar y gweill yn unol â chais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW.
- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol – mae'r prosiect yn parhau yn goch oherwydd oedi cyson. Mae'r prosiect nawr yn symud mewn cyfeiriad cadarnhaol a disgwylir achos fusnes yn gynnar yn 2024.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler 6.1 uchod |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler 6.1 uchod |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| 7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

2023-24 Adroddiad Perfformiad

Chwarter 2

(Gorffennaf - Medi 2023)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys yr Adroddiad


1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio 2
2. Perfformiad y Portffolio 4
3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol 4
4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel 9
5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo 13
6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth 19
7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel 22
8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau 24
9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022 26
10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Mawrth 2023) 27
11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022 28
12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf 30

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf 32

# 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio



Yn ystod y chwarter diwethaf, penderfynodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i wahodd pum prosiect newydd i ymuno â'r Cynllun Twf yn dilyn galwad am brosiectau newydd:

- Prosiect Anturiaethau Cyfrifol gan Zip World, gyda dyraniad amodol o £6.2m
- Prosiect Stiwdio Kinmel gan Stage Fifty, gyda dyraniad amodol o £6.8m
- Prosiect Hwb Hydrogen Caergybi gan Menter Môn, gyda dyraniad amodol o
- £3.8m
- Prosiect Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy gan The Circular Economy Ltd, gyda dyraniad amodol o £6.4m
- Prosiect Porth Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda dyraniad amodol o £4.79m

Mae gwaith yn parhau ar *'onboarding'* y prosiectau newydd, mae ymweliadau safle wedi'u cynnal â'r 5 prosiect. Bydd y prosiectau newydd yn cefnogi ein heconomi i ffynnu, creu swyddi newydd a dod â buddsoddiad i Ogledd Cymru.

Y dyddiad cau am geisiadau ar gyfer yr Her Ariannu Hydrogen oedd 11 Medi. Mae'r broses werthuso a dethol yn mynd rhagddi, a rhagwelir penderfyniad terfynol ym mis Rhagfyr. Mae hyd at £11.2miliwn o gyfalaf ar gael i alluogi galw'r diwydiant am hydrogen. Dyma gam gwych ymlaen i'r prosiect ac edrychwn ymlaen at ddatgelu rhagor o fanylion yn y man.

Bu i ni lansio ymgyrch recriwtio ym mis Medi i lenwi nifer o swyddi gwag gyda rolau yn cynnwys rheoli prosiect, cyfathrebu a chaffael. Hysbysebir rolau pellach ym mis Hydref - gweler ein gwefan [Uchelgais Gogledd Cymru | Gyrfaoedd] os oes gennych ddiddordeb gweithio i Uchelgais Gogledd Cymru.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a'n Pennaeth Gweithrediadau, Hedd Vaughan-Evans, i roi cyflwyniad i Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, gan ganolbwyntio ar y prif feysydd cynnydd a wnaed ers y sesiwn ddiwethaf ym mis Mawrth 2021 a'r heriau yr ydym wedi'u wynebu. Mae hyn yn rhan o'r fframwaith sicrwydd sydd gennym yn ei lle gyda'r ddwy lywodraeth a'n partneriaid lleol, ac rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu asesiad gonest o'n cynnydd hyd yma.

Mae'n amser cyffrous i Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda'n prosiectau newydd a nifer o'n prosiectau presennol yn nesáu at bwynt lle byddant yn cyflawni.



**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

*Alwen Williams*

# 2. Perfformiad y Portffolio

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | (Gwyrdd) | Bydd diweddariad Achos Busnes Portffolio 2023 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref i'w gymeradwyo cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o ddyfarniad blynyddol y broses ariannu. |
| Piblinell Cyflawni | (Ambr) | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2023. Bydd y prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig hon |
| Llywodraethu | (Gwyrdd) | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | (Gwyrdd) | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Medi 2022, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio. Mae'r adolygiad nesaf wedi cael ei drefnu a bydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2023. |
| Adnoddau a Chapasiti | (Ambr) | Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i lleihau gan 2 FTE dros y chwarter a fu, ac mae ymgyrch recriwtio yn mynd rhagddi i benodi i swyddi gwag a chael capasiti ychwanegol. Mae'r contractau tymor penodol yn y tîm wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2025, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| Cyllid | (Ambr) | Roedd cyfanswm o £2.28m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd at diwedd 2022/23, gydag £1.8m o hwnnw ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol. Hyd yma yn 2023/24, mae £368k o refeniw'r Cynllun Twf wedi cael ei wario. |
| Buddsoddiad | (Coch) | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | (Coch) | Mae risgiau lefel portffolio o ran caniatâd ac mae'r oedi yn parhau i fod yn uchel yn sgil materion lefel prosiect. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn risg uchel oherwydd chwyddiant parhaus, materion yn y gadwyn gyflenwi a chynnydd mewn costau adeiladu. Mae'r risg ynghylch capasiti wedi lleihau'n raddol yn sgil ymestyn contractau tymor sefydlog sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf ond mae'n parhau i fod yn uchel |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | (Gwyrdd) | Mae'r fframwaith gwireddu buddion, monitro a gwerthuso a'r diffiniadau dangosyddion wedi'u cwblhau'n derfynol, ac maent yn nwylo Llywodraeth Cymru i'w hadolygu. Mae canllaw defnyddwyr system yn cael ei ddatblygu ac mae'r ail gam o hyfforddiant defnyddwyr ar gyfer y system adrodd yn cael ei chynllunio. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | (Gwyrdd) | Y prif ffocws oedd y datganiad ar y prosiectau newydd sy'n ymuno â'r Cynllun Twf. Roedd cyfathrebu yn parhau i hyrwyddo'r Her Ariannwr Hydrogen gyda hyd at £11.2 miliwn o gyfalaf i gyflwyno hwb hydrogen yn y rhanbarth. Parhau i dyfu wnaeth ein hymgysylltiad a'n hestyniad i dyfu ar y cyfryngau cymdeithasol, ac fe lwyddom i gael dros 19k o ymweliadau ar y wefan. |

| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |
|---|---|---|---|---|---|

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |



| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) wedi derbyn yr ail wedd o offer wedi'i ariannu gan y Cynllun Twf ac mae wedi recriwtio i 14 swydd ar ôl y buddsoddiad. Mae'r achos cyfiawnhau busnes terfynol i awdurdodi cam terfynol yr arian i fod i gael ei ddatblygu yn y chwarter nesaf, gyda'r Ganolfan yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion gwario'r prosiect.<br>• Ar ôl trafodaethau diweddar â Llywodraeth y DU, mae'r gwaith paratoi ar gyfer y Prosiect Ychydig % Olaf wedi'i atal wrth i fanylion ymyrraeth genedlaethol newydd arfaethedig gael eu rhannu gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Mae gan y bwriad y posibilrwydd o gyflawni neu wella amcanion gwario'r prosiect rhanbarthol sydd wedi'i gynllunio ac fe wneir penderfyniad ar ail-sgopio'r prosiect Ychydig % Olaf unwaith y bydd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yr ymyrraeth newydd yn mynd yn ei flaen.<br>• Mae'r cynnydd ar yr Achos Busnes Strategol ac Amlinellol ar gyfer y Campysau Cysylltiedig a'r prosiectau Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig yn parhau ac mae'r adolygiad annibynnol Porth 2 gofynnol ar gyfer y prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig bellach wedi'i amserlennu ar gyfer mis Tachwedd, cyn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ystyried yr Achos Busnes Amlinellol. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Rebeccah Lowry
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Yr eitem derfynol o'r caffael am yr ail flwyddyn wedi'i chyflawni.<br>• Mae nifer y swyddi uniongyrchol a grëir wedi cyrraedd 14 (5 o staff parhaol, 9 tymor penodol hyd fis Rhagfyr 2024). | • Cyflwyno'r achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydydd gwedd y cyllid i brynu offer. | | • Mae'r prosiect yn cyflawni o ran cyrraedd yr amcanion gwario gyda chamau wedi'u cymryd ers cymeradwyo'r achos cyfiawnhau busnes diwethaf i gyflawni'r targed ar greu swyddi anuniongyrchol.<br>• Mae'r ail rownd caffael bellach wedi'i chwblhau. |
| **Cysylltu'r Ychydig % Olaf** Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Dogfennau caffael a chontractau wedi'u cwblhau.<br>• Cais SPF yn mynd rhagddo. Mae ymgysylltu â band-llydan cymunedol yn ffrwd gwaith yn y cais. | • Llywodraeth y DU i gadarnhau'r dyddiad lansio ar gyfer ei ymyrraeth newydd.<br>• Penderfyniad ar ail-sgopio'r prosiect o fewn y rhaglen | | • Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig ymyrraeth newydd sy'n debygol o gwrdd â neu wella amcanion gwario prosiect yr Ychydig % Olaf.<br>• Mae'r gweithgarwch caffael wedi cael ei atal hyd nes i Lywodraeth y DU gadarnhau dyddiad lansio ar gyfer ei brosiect, a disgwylir i hyn gael ei gadarnhau yn Ch3 23/24 ac iddo gael ei lansio yn 2024. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig** Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol ar gyfer 4G+ a ffrydiau gwaith Ffibr wedi cael eu cyflwyno am adolygiad PMO.<br>• Mae gweithgarwch ymgysylltu â'r farchnad wedi dechrau.<br>• Mae Adolygiad Gateway wedi cael ei amserlennu (Tachwedd 2023)<br>• Mae'r cais SPF yn mynd rhagddo, bydd y cyllid hwn yn cefnogi gwaith awdurdodau lleol ar ddatblygu cytundebau mynediad ac adolygu *'mobile coverage'* | • Cymeradwyaeth PMO o Achosion Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2 Tachwedd<br>• Cymeradwyaeth y bwrdd o Achosion Busnes Amlinellol terfynol | | • Mae ymgysylltu â'r farchnad yn parhau i ddilysu cynigion.<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro.<br>• Ni ystyrir bod cynnig diweddar Llywodraeth y DU am ymyrraeth genedlaethol newydd yn peri risg uniongyrchol yn y cam hwn.<br>• Arian SPF i fwrw ymlaen â gwaith ar gytundebau mynediad rhanbarthol (ymyrraeth refeniw) ynghyd â chyllid i gefnogi cynnal arolwg o'r *'mobile coverage'* ar draws y rhanbarth. |
| **Campysau Cysylltiedig** Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y ffrwd gwaith Di-wifr Uwch wedi'i gyflwyno am gymeradwyaeth gan y PMO.<br>• Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect LPWAN bellach yn bwrw ymlaen i gaffael.<br>• Cynigion am drefniadau sicrwydd prosiect wedi'u cymeradwyo gan Hwb Sicrwydd LlC | • Caffael LPWAN<br>• Adolygiad PMO o'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2 i'w amserlennu ar gyfer | | • Ymgysylltiad â'r farchnad yn dilysu'r cynnig presennol ond bydd yn parhau i ddatblygu hwn yn Achos Busnes Amlinellol.<br>• Risg chwyddiant o ran fforddiadwyedd yn cael ei fonitro. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cais SPF yn mynd rhagddo, mae hyn yn cynnwys arian am asesiadau cysylltedd ledled y rhanbarth | y ffrwd gwaith Di-wifr Uwch | | • Mae cynnig am sicrwydd gyda'r ddau ffrwd gwaith wedi cael ei gymeradwyo gan Hwb Sicrwydd LlC.<br>• Arian SPF i wneud asesiadau cysylltedd ar gyfer busnesau SME i wella'r trefniadau cyflawni ar gyfer y prosiect. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |



| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Cydnerth (Morlais):** Bu datblygwyr tyrbinau Morlais yn llwyddiannus yn y rownd dyrannu 'Contractau ar gyfer Gwahaniaeth' diweddar gan sicrhau dyraniad o dros 20MW a chryfhau'r achos ar gyfer prosiect Cydnerth. Ar hyn o bryd, mae'r telerau buddsoddi wrthi'n cael eu sefydlu ac mae'r Achos Busnes Amlinellol ar y trywydd iawn i argymell cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023.<br>• **Egni:** Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddaru ac ar y trywydd iawn i gael ei gymeradwyo tua diwedd Ch3 23/24.<br>• **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth:** Bu i'r Her Ariannwr Hydrogen gau yn gynnar ym mis Medi ac mae'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Prosiect yn mynd yn unol â'r targed i benodi ariannwr erbyn diwedd 2023.<br>• **Ynni Lleol Blaengar:** yn dilyn proses gaffael aflwyddiannus am ymgynghorydd cronfa dros yr haf, mae'r prosiect yn nesáu at ail-lansio tendr ar ôl gwneud newidiadau allweddol iddo ar ôl cael adborth gan y farchnad.<br>• **Trawsfynydd:** Mae Cwmni Egino wedi drafftio cais am newid ar gyfer newidiadau prosiect allweddol sy'n adlewyrchu eu Cynnig Busnes a'u cerrig milltir allweddol i FID.<br>• Prosiectau newydd: Bydd 2 brosiect newydd o'r broses adfer y prosiect wedi ymuno â'r rhaglen Ynni Carbon Isel:<br>  o Deeside Waste to Fuel Mae'r ariannwr wrthi'n drafftio'r Achos Busnes Amlinellol a bydd yn cael ei gyflwyno am adolygiad i'r PMO yn fuan iawn<br>  o Hwb Hydrogen Caergybi: Mae'r ariannwr wrthi'n drafftio'r Achos Busnes Amlinellol a bydd yn cael ei gyflwyno am adolygiad i'r PMO yn ystod yr hydref |



Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elgan Roberts
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |



| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)** Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Datblygwyr wedi llwyddo i gaffael mwy na 20MW o 'Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth' ar gyfer safle Morlais.<br>• Wedi cyflawni graddfa ambr yn dilyn yr Adolygiad Porth 2.<br>• Mae prosiect Morlais yn nesáu at gwblhau ac mae wedi cael ei gyflwyno yn llwyddiannus. | • Argymhellion o'r Adolygiad Porth 2 i gael eu gweithredu'n briodol.<br>• Achos Busnes Amlinellol i gael ei ddiweddaru a'i gwblhau'n derfynol ar ôl yr adolygiad PMO.<br>• Telerau ac Amodau WEFO i gael eu negodi i alluogi buddsoddiad pellach.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | (ambr) | • Datrysiadau i'r materion sydd wedi'u nodi angen eu cyflwyno cyn y gellir cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo. |
| **Hwb Hydrogen** Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae tri bid wedi'i dderbyn mewn ymateb i'r Her Ariannwr Hydrogen. | • Mae'r broses ddethol yn parhau i fod ar amser ac mae wedi'i hamserlennu i gael ei chyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Rhagfyr. Mae hyn yn parhau fel y dyddiad targed am benderfyniad ynghylch penodiad yr ariannwr/arianwyr. | (gwyrdd) | • Bidiau wedi'u derbyn, proses yn rhedeg ar amser |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae gwaith yn bwrw ymlaen ar ddyluniad yr adeilad newydd.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn bur gyflawn ond mae'n cael ei ddiweddaru wrth i waith dylunio barhau.<br>• Mae trafodaethau ariannu yn parhau gyda darpar arianwyr sydd ddim yn y Cynllun Twf i ddeall unrhyw ofynion ac amserlenni. | • Yn parhau i weithio drwy'r camau dylunio a *'sign-off'* porth i fod i ddigwydd unrhyw funud.<br>• Yn parhau i weithio drwy'r arolygon cychwynnol yn enwedig o ran cyfleustodau.<br>• Cwblhau papur llywodraethu mewnol yn derfynol i sicrhau cymeradwyaeth fewnol i'r un amserlen â'r cymeradwyo allanol.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | | • Ansicrwydd am ffurf terfynol y cyllid ac felly sgôp a buddion y prosiect. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Wedi ymgysylltu ag Ymgynghorwyr Cronfa â diddordeb i ddeall pam na wnaethant gyflwyno tendrau.<br>• Ystyried newidiadau posib i strwythur y ffioedd a sgôp y gwaith i wneud y cynnig tendr yn fwy deniadol i'r farchnad. | • Cytuno ar y newidiadau mwyaf priodol i'r cynnig tendr a diweddaru'r dogfennau tendr.<br>• Ail-lansio'r tendr.<br>• Cwblhau'r strategaeth buddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft, yn derfynol. | | • Oedi i gwblhau'r Achos Busnes Llawn yn derfynol a lansio'r Gronfa yn sgil methiant i benodi Ymgynghorydd Cronfa ar yr ymgais gyntaf. |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cais i newid y drafft i adlewyrchu'r newidiadau i'r prosiect arfaethedig ers i Gwmni Egino ddatblygu'r cynnig cychwynnol sydd wedi'i gymeradwyo o fewn yr Achos Busnes Rhaglen gael ei gyflwyno i'r PMO am adolygiad. | • Bydd cais am newid yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen am gymeradwyaeth.<br>• Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyfran 1 i'w adolygu. | | • Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflwyno'r rhaglen hyd nes i'r broses dethol safle gael ei gwblhau gan Lywodraeth y DG. |
| **Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy**<br>Datblygiadau'r Economi Cylchol | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Camau wedi'u cytuno ar gyfer yr amserlen uchelgeisiol i fod y prosiect ynni cyntaf i ddechrau gwaith adeiladu ar y safle ymhen pum mis. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei baratoi gan PwC ar gyflymdra digynsail ac mae adolygiad Porth yn cael ei gynllunio er mwyn cadw'r prosiect ar y llwybr iawn er mwyn cychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2024. | | • Cynnig prosiect aeddfed yn ei le, ymgynghorwyr arbenigol ynghlwm, buddsoddwyr credadwy yn barod i symud ymlaen. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn derfynol i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd 2023. | | |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Camau wedi'u cytuno ar gyfer yr amserlen uchelgeisiol i gyflawni'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Ionawr/Chwefror 2024. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Disgwylir y penderfyniad terfynol gan Lywodraeth y DG ynghylch y buddsoddiad £4.8 miliwn, yn amodol ar y broses diwydrwydd dyladwy a gwerth am arian ac asesiadau rheoli cymorthdaliadau.<br>• Ar yr un pryd, bydd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer arian y Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu ar fyrder, yn barod am adolygiad porth ym mis Tachwedd 2023.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn derfynol i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2023. | | • Angen penderfyniadau buddsoddi gan fuddsoddwyr allanol (EDF a Llywodraeth y DG) sy'n ddibynnol ar eraill |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |



| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Warren Hall, Brychdyn -** Mae Llywodraeth Cymru yn penodi ymgynghorydd i adrodd ar effaith yr achos diogelwch maes awyr Penarlâg ar safle'r prosiect ac rydym yn disgwyl yr asesiadau cychwynnol yn gynnar ym mis Hydref. Ar ôl asesiad cychwynnol o'r profion ar gyfer buddsoddiad priffyrdd yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru am benodi ymgynghorydd i gynnal asesiad ffurfiol i gadarnhau'r farn gychwynnol honno.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - Mae'r Cyngor am gyflwyno tendr i benodi ymgynghorydd i gynnal Astudiaeth Mynediad a Symudiad i ail-ymweld â thystiolaeth patrymau a chyfeintiau traffig er mwyn asesu capasiti'r safleoedd prosiect i'w datblygu yn unol ag argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u hymgynghorwyr Avison Young bellach yn y broses o drafod y materion hyfywdra sy'n cael eu hachosi yn sgil costau adeiladu cynyddol yn y diwydiant adeiladu. Mae materion eraill gyda'r prosiect yn parhau i wneud cynnydd, yn benodol, mae gwell cywirdeb gyda'r amcangyfrifon cost, mae drafft cyntaf y prif gynllun wedi'i gwblhau ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar gwrdd â'r amodau a'r trwyddedau cynllunio sydd eu hangen i gwblhau'r caniatâd cynllunio yn derfynol er mwyn i gam cyntaf y gwaith fynd rhagddo.<br>• **Porth Caergybi** - cymeradwywyd Gorchymyn Diwygio Harbwr prosiect ymestyn Porthladd Caergybi ar ddechrau mis Awst. Mae'r cynnydd gydag achos busnes y prosiect wedi cyflymu gyda'r Achos Economaidd yn cael ei ddatblygu ymhellach, ac eglurder ar y llwybr caffael a'r ddogfen Cefnogaeth Cymhorthdal drafft yn cael ei pharatoi.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Mae briff y tendr ar gyfer penodi'r tîm proffesiynol o ymgynghorwyr wedi cael ei ddychwelyd ac mae'r ymatebion wrthi'n cael eu hadolygu.<br>• Prosiectau newydd: Mae dau brosiect newydd o'r broses prosiectau newydd wedi ymuno â'r Rhaglen Tir ac Eiddo: |

- **Kinmel Studios** - Mae cyfarfod *'on-boarding'* cychwynnol wedi'i gynnal â Studio 50 a'u tîm ymgynghorol.
- **Porth Wrecsam -** Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda thîm y Prosiect ac wedi hynny cynhaliwyd cyfarfod ar lywodraethu'r prosiect a'i brosesau er mwyn adolygu'r achos amlinellol strategol.





Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cyngor am benodi ymgynghorydd i gynnal astudiaeth mynediad a symudiad er mwyn cael tystiolaeth gyfredol o faint a llif y traffig. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth gyfredol ar gyfer asesiad traffig sydd i'w gynnal i gadarnhau p'un a oes modd i safle'r prosiect gyflawni yn sgil pedwar prawf Llywodraeth Cymru.<br>• Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod gan eu Safleoedd Trin Dŵr Gwastraff yng Ngresffordd a Five Ford beth capasiti i gymryd llif ychwanegol a thrin allyriadau i afonydd am ffosffad, a allai olygu bod modd bwrw ymlaen â'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo eisoes. | • Cwblhau'r broses gaffael i benodi'r ymgynghorydd i gynnal yr Astudiaeth Mynediad a Symudiad. | | • Mae sgôr risg y prosiect wedi newid i goch, tra mae'r adolygiad o allu'r prosiectau i gwrdd â phrofion y Llywodraeth am fuddsoddiad priffyrdd yn cael ei gynnal. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cytunodd Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru bod y prosiect yn medru bwrw ymlaen yn unol â phedwar prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith priffyrdd newydd. Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad ffurfiol.<br>• Cyfarfu Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint ac Uchelgais Gogledd Cymru gyda'r ymgynghorydd i dderbyn adroddiad cychwynnol ar y safleoedd yn unol ag achos diogelwch y maes awyr. | • Ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu eu hadroddiad drafft ar yr effaith a mesurau lliniaru'r achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect. | | • Sgôr risg y prosiect yn parhau yn ambr gan bod cwrdd yr achos diogelwch maes awyr yn dal angen cael ei asesu'n llawn. |

Tudalen 62

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Rhuthun) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cynnydd sylweddol ar y dogfennau gan bartner y prosiect. Prif gynllun y safle wedi'i gwblhau ac asesiadau cost manwl wedi'u cwblhau. Gwerthusiad o'r datblygiad newydd wedi'i gwblhau.<br>• Partner y prosiect i gyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Cynllunio ar y cytundeb A106, cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio a thrwyddedau Cynefinoedd. | • Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael a chyflwyno hwn er mwyn i'r broses gymeradwyo fynd rhagddi.<br>• Drafftio cais am gefnogaeth cymhorthdal gyda chyngor gan ymgynghorwyr allanol a chyflwyno hwn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Mae'r caniatadau sydd eu hangen yn cael eu rhoi gan yr awdurdod cynllunio. | | • Sgôr risg y prosiect wedi newid yn goch yn sgil cynnydd yn y bwlch hyfywdra. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r partner datblygu ynghylch datrysiadau posib. |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor** Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Llywodraeth Cymru i benodi tîm ymgynghoriaeth i ddylunio a datblygu'r prosiect. | • Tîm ymgynghorol Llywodraeth Cymru i ddechrau datblygu'r prosiect. | | • Peth oedi yn sgil y broses gaffael er mwyn penodi'r tîm ymgynghorol. . Y prosiect yn cadw ei sgôr risg gwyrdd. |
| **Porth Caergybi** Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru'r Gorchymyn Diwygio Harbwr Caergybi ym mis Awst.<br>• Cynnydd wedi'i wneud ar yr Achos economaidd, caffael, costau diwygiedig, yn y chwarter hon.<br>• Cais cyngor cymorth cymhorthdal yn cael ei ddatblygu cyn ei gyflwyno i Pinsent Masons | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladdoedd.<br>• Cyflwyno'r cais am gefnogaeth cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>• Stena i fwrw ymlaen â'r caffael cam cyntaf cyn cyflwyno'r ail gam Gwahoddiad i Dendro. | | • Sgôr risg yn cael ei gadw ar ambr gan bod trafodaethau gyda defnyddwyr ardaloedd newydd y porthladd yn dal i ddigwydd. |
| **Stiwdio Kinmel** Stage Fifty | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad. | | • Graddfa risg yn wyrdd o ystyried y craffu a'r asesiadau a wnaed ar gyflawnadwyedd prosiect y cais. |
| **Porth Wrecsam** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn derfynol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi.<br>• Dilynwyd hyn gan gyfarfod i drafod materion pellach, gan gynnwys llywodraethu cynnydd cyfredol y prosiect, camau gweithredu.<br>• Dogfennau wedi'u rhannu â phartner y prosiect. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br>• Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd a rhaglen waith | | • Graddfa risg yn wyrdd o ystyried y craffu a'r asesiadau a wnaed ar gyflawnadwyedd prosiect y cais. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (green) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (amber) | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | (red) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | Mae prosiectau yn bwrw ymlaen yn unol â'r disgwyl yn y chwarter diwethaf a rheoli risgiau yn ymwneud â newidiadau'r tîm ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon a phroses *'on-boarding'* y prosiect newydd, Responsible Adventure gan ZipWorld. Mae materion cynllunio yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar gyfer y tri phrosiect, gyda'r risgiau yn cael eu rheoli fel y disgrifir isod. Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi bod yn trafod y cwestiwn ynghylch pam na ddaeth unrhyw brosiectau yn ymwneud ag amaethyddiaeth ymlaen drwy'r alwad ddiweddar am brosiectau newydd ac mae'n cynnig ffurfio grŵp Tasg a Gorffen i ymchwilio i hyn ymhellach â rhan-ddeiliaid. |





Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith arolygu pellach yn parhau ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW<br>• Rheolwr Prosiect newydd wedi'i recriwtio ac Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) Dros Dro ar gyfer y prosiect, sef Martin Jardine, yn cymryd lle Dr. Paul Bevan<br>• Gweithio gyda'r PMO i gadarnhau amserlen ddiwygiedig ar gyfer drafftio ac adolygu'r Achos Busnes Llawn gan weithio tuag at gymeradwyo yn gynnar yn 2024. | • Parhau â gwaith arolwg pellach<br>• Cyfarfod ar y safle gydag Uchelgais Gogledd Cymru i drafod risgiau cynllunio a'r amserlen tan fydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gyflwyno<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn ymhellach | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect a chan nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau eto |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol (OBC) yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen a'i gymeradwyo<br>• Achos Busnes Amlinellol (OBC) wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Busnes ac wedi'i gefnogi<br>• Arian Ffyniant Cyffredin wedi'i dderbyn i ddatblygu prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth, gan gefnogi datblygiad pellach y prosiect hwn | • Achos Busnes Amlinellol (OBC) i'w gyflwyno i Fwrdd y Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Hydref 2023<br>• Gweithio gyda'r PMO er mwyn datblygu cytundeb ariannu yn benodol i'r prosiect.<br>• Paratoi Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cynnig Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfer yr elfen Canolbwynt, a chyflwyno cais cynllunio | | • Mae gweithio drwy fanylion y caffael pwrpasol wedi arwain at oedi o 1-2 fis gan newid y risg amser i Ambr. |
| **Anturiaethau Cyfrifol**<br>ZipWorld | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Mae'r prosiect newydd ddod i mewn i bortffolio'r Cynllun Twf ac mae sgyrsiau cychwynnol gyda'r PMO wedi cychwyn.<br>• Cyfarfod cyflwyno ar y safle wedi'i gynnal â phartner y prosiect ym mis Medi. | • Diwrnod hyfforddiant ar ddechrau mis Hydref gyda'r ariannwr prosiect i drafod cyflawniad y prosiect a rhannu gwybodaeth a phrofiad. | | • Gweithio ar gadarnhau sgôp ac amserlen fel rhan o'r diweddariad SOC. |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi canolbwyntio ar gefnogi prosiectau i gyflawni yn unol ag amserlenni tynn, gan reoli'r risgiau a ddisgrifir isod. Mae hefyd wedi cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil Rhaglen Partneriaethau Lleol ar gyfer Arloesi Cymru Wledig dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, ar y cyd â Phrifysgolion Bangor a Wrecsam. Mae'r prosiect ymchwil hwn yn edrych ar ystyr arloesi mewn cyd-destun gwledig, fydd yn cefnogi ymgysylltiad prosiectau'r Cynllun Twf gyda mentrau gwledig bach a chanolig ar draws Gogledd Cymru. |





Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Rhywfaint o oedi gyda'r cyflawni ac/neu mân faterion/materion cymedrol sydd angen sylw (camau gweithredu rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** Prifysgol Wrecsam Glyndŵr | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae'r dyluniadau ar gyfer adeiladu Plas Coch wedi'u cwblhau'n derfynol a'u cymeradwyo, gan gynnwys gosodiadau manwl o'r ystafelloedd.<br>• Sesiwn ymgysylltu â busnesau ym mis Mehefin.<br>• Mae tendrau ar gyfer y gwaith OpTIC a phrynu offer wedi'u cymeradwyo a'u rhyddhau ar GwerthwchiGymru<br>• Penodwyd Apollo Engineering fel ymgynghorwyr Hydrogen ar y prosiect. | • Cwblhau'r drafftiau o'r achosion economaidd, masnachol, ariannol a rheoli ar gyfer yr achos busnes llawn.<br>• Prosiect ar y trywydd iawn er mwyn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ystyried yr Achos Busnes Llawn ym mis Tachwedd 2023 a chychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2024<br>• | | • Mae'r prif faterion o ran cost ac amser wedi'u datrys, ond mae'r amseru yn parhau i fod yn dynn er mwyn aros yn unol â'r amserlen i gymeradwyo ym mis Tachwedd. |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes | • Cynhaliwyd Adolygiad Sicrwydd Prosiect ar 4-6 Medi gan sicrhau graddfa Ambr, gan nodi bod gwaith i'w wneud ond bod modd cyflawni'r prosiect.<br>• Mae gwaith yn parhau ar ddyluniad safle Henfaes - mae arolygon rhagarweiniol wedi'u hamserlennu, sgyrsiau yn cael eu cynnal a gweithdy cynllunio a rhan-ddeiliaid wedi'u cynnal.<br>• Mae gwaith ar yr Achos Cyfiawnhad Busnes wedi parhau yn seiliedig ar yr adolygiad PMO ym mis Gorffennaf. | • Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safle Henfaes<br>• Cynnwys adborth o Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio cyn cwblhau'r Achos Cyfiawnhau busnes yn derfynol am adolygiad terfynol. | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect |

Tudalen 72

| Prosiect | Cam Caniatâd: Y cyfnod cyn gwneud cais | Cam Caniatâd: Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cam Caniatâd: Cynlluniо llawn / Caniatâd | Cam Caniatâd: Amodau wedi'u gweithredu | Cam 1: Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2: Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3: Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4: Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5: Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6: Approval of the Full Business Case | Cam 7: Y cyfnod cyn gwneud cais | Cam 8: Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Y Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Cydnerth (Morlais) | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Egni | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Gwastraff i danwydd Glannau Dyfrdwy | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Hwb Hydrogen Caergybi | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Mabwysiadu'r CDLl ar ôl | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | 🕒 | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Stiwdio Kinmel | 🕒 | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Porth Wrecsam | 🕒 | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | |

# 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022






| | | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Ion-24 | Hyd-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Mai-24 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Awst-22 | Chwef-25 | Rhag-26 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Rhag-23 | Hyd-24 | Rhag-26 |
| | Egni | Rhag-23 | Mai-25 | Awst-26 |
| | Trawsfynydd | Chwef-25 | Meh-25 | Ebr-30 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Medi-24 | Mai-25 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Maw-23 | Ebr-24 | Maw-29 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Tach-23 | Ebr-24 | Medi-25 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Rhag-23 | Meh-24 | Ion-26 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Tach-23 | Maw-24 | Ion-26 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Rhag-24 | Medi-25 | Rhag-26 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Rhag-23 | Maw-24 | Medi-25 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Mai-24 | Hyd-24 | Medi-25 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Meh-25 | Ion-26 | Maw-27 |
| | Stiwdio Kinmel | Gorff-24 | Ebr-25 | Maw-27 |
| | Porth Wrecsam | Gorff-24 | Mai-25 | Medi-26 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Ion-24 | Meh-24 | Meh-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Ebr-22 | Chwef-24 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Awst-22 | Hyd-24 | Rhag-24 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Hyd-23 | Meh-24 | Meh-26 |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Ebr-24 | Awst-24 | Awst-25 |

Mae'r statws ar gyfer pob prosiect yn cael ei asesu yn erbyn y proffil hwn o Achos Busnes Portffolio 2022 oni bai bod amserlen newydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais drwy achos busnes prosiect neu gais am newid. Bydd Achos Busnes Portffolio 2023 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn ystod mis Hydref, mae hyn yn cynnwys fersiwn wedi'i diweddaru o'r biblinell gyflawni.

# 10. Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni

| | | Targedau Achos Busnes Portffolio 2020*** | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4.0 | OBC | 15 | 130 | 4.0 | -20 | -20 | 0 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 45 | 120 | 9.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | 50 | 100 | 36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Egni | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | OBC | 122 | 174 | 106 | +2 | -6 | 0 |
| | Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | OBC | 33 | 61 | 14.7 | -12 | -9 | -15.2 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | 4OBC + 1 FBC | 227 | 494 | 140.7 | -48 | -26 | -19.5 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio
** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn
*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.
****Ar ôl cymeradwyo Achos Busnes Portffolio 2023, bydd y traciwr Amcanion yn cael ei ddiweddaru.

# 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Cyllideb Cyfalaf 2023/24

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m * | 2022/23 £m* | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.39 | 0.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig % Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.60 | 1.72 | 1.85 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 10.10 | 4.93 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 1.63 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 5.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy ** | Datblygiadau'r Economi | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| | Hwb Hydrogen Caergybi** | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.74 | 6.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 1.40 | 17.24 | 15.83 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| | Stiwdio Kinmel** | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| | Porth Wrecsam** | Cyngor Bwrdeistref Sirol | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.13 | 2.30 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| | Anturiaethau Cyfrifol** | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.10 | 2.20 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 1.63 | 5.41 | 4.34 | 0.17 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | | | | | | | | | | | | | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio** | **5.15** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **240.00** |

** proffil 2021/22 a 2022/23 yw'r gwariant gwirioneddol. Mae'r proffil sy'n weddill fel y rhagwelwyd yng Nghyllideb Cyfalaf 2023/24.*
*** Gwybodaeth dros dro ar gyfer y prosiectau newydd wedi'i chynnwys.*

# 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 23/24 (£m) | YTD Gwirioneddol (£m) | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.39 | 0.00 | -0.39 | Mae un hawliad yn ddyledus ar gyfer y prosiect DSP yn ystod y flwyddyn. |
| | Cysylltu'r Ychydig % Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.60 | 0.00 | -0.60 | |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | Datblygiadau'r Economi Cylchol | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.74 | 0.00 | -0.74 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 1.40 | 0.00 | -1.40 | |
| | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 1.63 | 0.00 | -1.63 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 1.25 | 0.00 | -1.25 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio** | 1.02 | 0.368 | -0.652 | |
| **Cyfanswm** | 7.13 | 0.368 | -6.762 | Gweler uchod |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2023) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD).

# ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf



| | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Uchelgais Gogledd Cymru | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibr optig sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Uchelgais Gogledd Cymru | Cefnogi cyflwyno prosiect enghreifftiol yn cynnwys cynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd mewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella gallu y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Uchelgais Gogledd Cymru | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy | The Circular Economy Ltd | Cynnig i greu cyfleuster i drosi 182,000 tunnell y flwyddyn o wastraff bwyd masnachol sydd ar y ffordd i dirlenwi/i gael ei losgi yn ynni a gwrtaith bio-methan gwyrdd, ynni a gwrtaith. |
| | Hwb Hydrogen Caergybi | Menter Môn | Bydd y prosiect yn adeiladu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynhyrchu oddeutu 2000+kg/y dydd o hydrogen gwyrdd, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Uchelgais Gogledd Cymru | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Uchelgais Gogledd Cymru | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | Porth Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad cynaliadwy o ardal fywiog wedi'i hadfywio, sy'n creu canolbwynt i gefnogi buddsoddiad busnes a hwb trafnidiaeth aml-weddog gyda chysylltiadau at deithio llesol. |
| | Stiwdio Kinmel | Stage Fifty | Bydd y prosiect hwn yn dylunio, adeiladu a gweithredu stiwdios ffilm a theledu ym Mharc Menter Tir Llwyd, ynghyd ag academi hyfforddi ac unedau deori. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| | Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | Prosiect aml-elfen fel rhan o becyn twristiaeth gynaliadwy ac eco-dwristiaeth gan gynnwys Car Cebl newydd a chynaliadwy, Slate Explorer gan gynnwys platfform gwylio i ymwelwyr a Rhwydwaith eFws. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **18 Ionawr, 2024** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 05/01/24]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi’i ddiddymu** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | **Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – Cyfarfod Ychwanegol** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Strategaeth Tai Gwag: 2023/28 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (16/01/24) – Cyllideb 2024/25 (bore)** | **Ionawr, 2024 (18/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi) |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (16/01/24) (prynhawn)** | |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Dangosyddion Perfformiad Lleol: Gwasanaethau Tai – Adroddiad Cynnydd | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| | Cynllun Cydraddoldeb: 2023/2027 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/24) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Diogelu Corfforaethol |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

Tudalen 87

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | |